RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
42/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
26/09/2019

# Adolygiad o'r Rhaglen Grantiau Her Cyfuno

© Hawlfraint y Goron Digidol ISBN 978-1-83933-166-4

Teitl: Adolygiad o'r Rhaglen Grantiau Her Cyfuno

Amgueddfa Cymru – Llywodraeth Cymru

Awdur: Polly Dempsey, Amgueddfa Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Dempsey, P (2019). *Adolygiad o'r Rhaglen Grantiau Her Cyfuno*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 42/2019
Ar gael yn: https://llyw.cymru/adolygiad-or-rhaglen-grantiau-her-cyfuno

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Kathleen Mulready
Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 4NQ
Ffôn: 0300 025 1481
E-bost: kathleen.mulready@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....2
Rhestr o siartiau.....2
Geirfa 4
1. Cyflwyniad.....5
2. Y cyd-destun.....10
3. Methodoleg.....17
4. Canfyddiadau.....22
5. Casgliadau.....70
Llyfryddiaeth.....71
Atodiad A - Cefndir.....72
Atodiad B - Cyfuno: fframwaith mesur perfformiad 2019-20.....74
Atodiad C: Arolwg.....78
Atodiad D - Canllaw cyfweld â chydlynwyr Cyfuno.....83
Atodiad E - Canllaw cyfweld sefydliadau partner.....87
Atodiad F – Crynodeb o ddata'r canlyniadau.....90

**Rhestr o dablau**

Tabl 1. 1 Trosolwg o'r ardaloedd a gymerodd ran yng nghyfnod peilot Cyfuno, a Grantiau Her Cyfuno (Mis Ebrill 2015 – hyd yma)....................................................................6

**Rhestr o siartiau**

Siart 4. 1. Barn ar arweinyddiaeth Cyfuno – ymgorffori Cyfuno ........................................30
Siart 4. 2. Profiadau cydlynwyr – eglurder ynghylch y rôl.................................................33
Siart 4. 3. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd - cyfathrebu .......................................36
Siart 4. 4. Newidiadau i'r ffordd y mae'r sefydliad yn meddwl ac yn gweithio - cydweithio...39
Siart 4. 5. Newidiadau i ffordd y sefydliad o feddwl a gweithio – gweithio gyda sefydliadau newydd ........................................................................................................40
Siart 4. 6. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – cysylltiadau â rhaglgenni'r blynyddoedd cynnar ........................................................................................................41
Siart 4. 7. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y Cydlynydd – cysylltiadau gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd ........................................................................................................41
Siart 4. 8 Barn ar rôl Cydlynwyr Cyfuno – targedu gweithgareddau....................................47
Siart 4. 9. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – mynediad at hyfforddiant ...................51
Siart 4. 10. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – monitro a gwerthuso........................62

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Deddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| LGBTQ+ | Lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, a queer |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MALD | Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd |
| NEET | Pobl nad ydynt fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant |
| VARTE | Gwirfoddoli fel Llwybr i Gyflogaeth |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o Grantiau Her Cyfuno, sef un o agweddau allweddol y rhaglen Cyfuno, sy'n fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o gynyddu mynediad diwylliannol a chyfranogiad mewn ardaloedd difreintiedig.

1.2 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Amgueddfa Cymru ymgymryd â'r adolygiad. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y dystiolaeth ar ddiwylliant a threchu tlodi yng Nghymru a fydd, yn ei dro, yn helpu i lywio datblygiad y rhaglen Cyfuno.

**Ynglŷn â'r Rhaglen Cyfuno**

1.3 Mae'r llywodraeth yn ystyried mynediad at ddiwylliant a chyfranogi ynddo fel agwedd ar gyfiawnder cymdeithasol ynddo'i hun. Y ddealltwriaeth o ddiwylliant yw "nid dim ond y celfyddydau y mae diwylliant yn ei olygu...mae hefyd yn cynnwys treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys cyfraniad amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r cyfryngau" (Andrews 2014, t.3).[1] Nod Cyfuno yw mynd i'r afael â thlodi ac anfantais drwy annog pobl i gymryd rhan weithredol mewn diwylliant ar lefel cymuned leol, i rymuso'r rhai sydd wedi wynebu rhwystrau yn draddodiadol.

1.4 Nod Cyfuno yw cynllunio i sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng adnoddau, gwasanaethau a rhaglenni gan ystod eang o sectorau a sefydliadau ac fe'i disgrifiwyd fel "ffordd newydd radical o sicrhau bod ein buddsoddiad diwylliannol yn canolbwyntio ar y bobl mwyaf anghenus" (Llywodraeth Cymru 2016, t. 16).[2] Rhan hanfodol o'r rhaglen fu sefydlu partneriaethau i ddylunio a gweithredu gweithgareddau ar lefel leol. Mae'r canlyniadau disgwyliedig yn canolbwyntio ar fanteision posibl cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i unigolion yn yr ardaloedd sy'n cymryd rhan.

1.5 Mae Tabl 1.0 yn rhoi trosolwg o'r ardaloedd a gymerodd ran yng nghyfnod peilot Cyfuno, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015 gan barhau tan fis Mawrth 2017, a

---

[1] Andrews, K. (2014). Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 2 Awst 2019].
[2] Llywodraeth Cymru, (2016). Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein, fel ar: 22 Awst 2019].

Grantiau Her Cyfuno (Ebrill 2017 hyd yma). Ceir rhagor o wybodaeth am gefndir Cyfuno yn Atodiad A.

**Tabl 1. 1 Trosolwg o'r ardaloedd a gymerodd ran yng nghyfnod peilot Cyfuno, a Grantiau Her Cyfuno (Mis Ebrill 2015 – hyd yma)**

| **Ardal** | **Mis Ebrill 2015 – Mis Mawrth 2016 (blwyddyn Beilot un)** | **Mis Ebrill 2016 – Mis Mawth 2017 (blwyddyn Beilot dau)** | **Ebrill 2017 – hyd yma (Grantiau Her Cyfuno)** |
|---|---|---|---|
| Caerdydd*[3] | | | |
| Merthyr Tudful* | | | |
| Gwynedd | | | |
| Casnewydd | | | |
| Abertawe | | | |
| Torfaen | | | |
| Wrecsam | | | |
| Caerffili **[4] | | | |
| Sir Gaerfyrddin | | | |
| Conwy | | | |
| Sir y Fflint | | | |
| Castell-nedd Port Talbot | | | |

[3] *Yn ystod y cyfnod peilot, roedd Caerdydd a Merthyr Tudful yn gweithredu fel un ardal Cyfuno. Rhoddodd Merthyr Tudful y gorau i gymryd rhan yn y rhaglen pan gyflwynwyd y Grantiau Her, ond parhaodd Caerdydd yn yn rhan o'r cynllun.

[4] **Mae Caerffili yn dal i fod yn un un o ardaloedd Cyfuno, ond mewn partneriaeth â Thorfaen ers mis Ebrill 2017.

1.6 Rheolir Cyfuno gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth adrannau eraill Llywodraeth Cymru (Cadw, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)) a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth a noddir gan y llywodraeth (Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru). Rheolir y gwerthusiad parhaus o Cyfuno gan gydlynydd ymchwil yn Amgueddfa Cymru gyda chefnogaeth gan ymchwilwyr cymdeithasol yn KAS.

1.7 Mae'r rhaglen Cyfuno bellach yn ei phumed flwyddyn. Yn dilyn cyfnod peilot y rhaglen, ym mis Chwefror 2017 lansiodd MALD (yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) Grantiau Her Cyfuno. Gwahoddodd MALD gynigion cyllido gan gyrff arweiniol sydd â diddordeb mewn cyflwyno rhaglenni diwylliannol strategol a oedd yn cyd-fynd ag amcanion Cyfuno. Nododd canllawiau'r cais y dylai cyllid grant greu capasiti mewn ardaloedd cyfranogol drwy gyfrannu at gost rolau cydlynwyr (Llywodraeth Cymru, 2017).[5]

1.8 Yn dilyn proses gystadleuol am grant, roedd y cyrff arweiniol a restrir isod, mewn wyth ardal bartneriaeth ledled Cymru, yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid; ac ers mis Ebrill 2017, mae Grantiau Her Cyfuno wedi ariannu rôl cydlynwyr yn yr ardaloedd partneriaeth hyn:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Torfaen a Chaerffili
- Amgueddfa Stori Caerdydd - Caerdydd
- Dinas a Sir Abertawe - Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Conwy
- Tai Tarian - Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd - Casnewydd
- Cyngor Gwynedd, Gwynedd
- Cyngor Sir Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin

[5] Llywodraeth Cymru, (2017). Grantiau Her Cyfuno 2017-18. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

1.9 Mae'r wyth corff arweiniol hyn, sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, wedi cyflwyno rhaglenni diwylliannol strategol sydd â'r nod o hyrwyddo a / neu gefnogi themâu Cyfuno, sef:

- cyflogadwyedd a sgiliau, yn benodol drwy sgiliau a chyrsiau achrededig, Gwirfoddoli fel Llwybr i Gyflogaeth (VARTE) a lleoliadau hyfforddiant;
- rhaglenni diwylliannol sy'n cynnal hyder, yn grymuso ac yn cefnogi cyrhaeddiad, yn enwedig ymysg pobl ifanc;
- diwylliant fel offeryn i wella iechyd a lles corfforol a meddyliol; a
- cefnogi'r blynyddoedd cynnar drwy lythrennedd a rhaglenni dysgu teuluol.

**Nodau ac Amcanion yr Adolygiad**

1.10 Un elfen allweddol o’r gwerthusiad parhaus o Cyfuno oedd adolygu Grantiau Her Cyfuno a rôl y cydlynydd fel rhan annatod o'r rhaglen hon.

1.11 Nod cyffredinol yr ymchwil hwn oedd cael barn a phrofiadau cydlynwyr lleol a’r sefydliadau partner y mae’r cydlynwyr wedi gweithio â hwy ar ddylunio a chyflwyno gweithgareddau ar lefel ardal bartneriaeth. Diben yr ymchwil oedd deall barn y cyfranogwyr am y rhaglen Cyfuno yn ymarferol, er mwyn cyfrannu at ei datblygiad a'i gwella. Yr amcanion penodol oedd:

- mesur boddhad cyfranogwyr â Grantiau Her Cyfuno;
- canfod beth sy'n gweithio'n dda;
- nodi meysydd nad ydynt wedi gweithio cystal ac y gellid eu gwella, a
- helpu i flaenoriaethu unrhyw feysydd i'w newid.

1.12 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg ar-lein, a anfonwyd at gydlynwyr lleol a sefydliadau partner. Mae canfyddiadau'r ymchwil hefyd yn seiliedig ar gyfweliadau ansoddol gyda phob un o'r wyth cydlynydd, yn ogystal â chyfweliadau â chynrychiolwyr o sefydliadau partner o rai o'r rhwydweithiau lefel partneriaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg yn Adran Tri.

1.13 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran Dau** sy'n amlinellu cefndir a chyd-destun gweithredol y rhaglen Cyfuno, gan gynnwys ei strwythur cyflawni a lansio Grantiau Her Cyfuno. Mae'r bennod hon hefyd yn rhoi trosolwg o'r ymchwil a wnaed hyd yn hyn fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o'r rhaglen Cyfuno.
- **Adran Tri** sy'n crynhoi'r fethodoleg ymchwil, ei chwmpas a'r cyfyngiadau, gan esbonio sut y cynhaliwyd yr adolygiad hwn.
- **Adran Pedwar** sy'n cyflwyno canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau â chydlynwyr a sampl o gynrychiolwyr o sefydliadau partner sy'n cymryd rhan.
- **Adran Pump** sy'n crynhoi casgliadau'r ymchwil.

## 2. Y cyd-destun

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun ac yn crynhoi peth o'r ymchwil a gyhoeddwyd ar y rhaglgen Cyfuno hyd yn hyn fel rhan o'r gwerthusiad parhaus.

### Lansio'r Rhaglen Cyfuno

2.2 Yn ei hadroddiad arloesol *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i Hybu Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru* (Andrews 2014, t. 1), nododd y Farwnes Kay Andrews fod mynediad i ddiwylliant a chyfrannu ato yn "agwedd ar gyfiawnder cymdeithasol ynddo ei hun, ac fel arf pwerus yn erbyn tlodi – pob math o dlodi". Galwodd Andrews ar lywodraeth leol a chenedlaethol a chyrff diwylliannol a chymunedol ledled Cymru i gydweithio'n fwy effeithiol i sicrhau'r manteision mwyaf posibl yn sgil cyfranogiad diwylliannol i unigolion sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

2.3 Mae Andrews yn galw am gatalydd ar ffurf camau gweithredu; mewn ymateb i hyn, ymysg cynigion Llywodraeth Cymru roedd y bwriad i sefydlu nifer fach o 'Ardaloedd Arloesi' ledled Cymru. Ym mob Ardal Arloesi, byddai sefydliadau diwylliannol, grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau addysg yn cysylltu â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gydweithio ar ddatblygu cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol; yn arbennig, ymhlith yr unigolion, y grwpiau a'r cymunedau hynny na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â'r mathau hyn o weithgareddau (LlC, 2014, t. 5).

### Grantiau Her Cyfuno

2.4 Gweithiodd Cyfuno gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn unig yn ystod ei gyfnod peilot (gweler Atodiad A; LlC 2016, 2017), ond fe'i diwygiwyd yn sgil lansio trydedd flwyddyn y rhaglen (Ebrill 2017) i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad parhaus o'r cyfnod peilot (gweler LlC 2016, 2017) ac yng ngoleuni cyd-destun newydd Cymunedau yn Gyntaf, a oedd wedi dirwyn i ben yn raddol erbyn mis Mawrth 2018.

2.5 Mae Cyfuno yn parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd. Fodd bynnag, er bod y rhaglen yn gweithio o fewn clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn unig yn ystod y cyfnod peilot, ar gyfer yr ail gyfnod, gallai

ymgeiswyr benderfynu pa gymunedau difreintiedig y byddent yn gweithio gyda nhw. Gwahoddwyd ceisiadau am hyd at £25,000 y flwyddyn dros gyfnod o ddwy flynedd gan MALD o dan raglen grantiau cystadleuol: *Grantiau Her Cyfuno*. Gwahoddwyd ceisiadau gan gyrff arweiniol i gyflwyno prosiectau diwylliannol strategol yn gysylltiedig â themâu Cyfuno a restrir yn Adran 1.9. Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr fod yn awdurdodau lleol, neu'n gyrff a weithredir gan awdurdodau lleol neu a oedd â chysylltiadau cryf â hwy (fel partneriaeth ffurfiol neu drefniant cyllido). Mewn rhai ardaloedd, ystyriwyd asiantaethau cymunedol eraill (er enghraifft, cymdeithasau tai) a allai ddatblygu partneriaethau cryf gyda chyrff diwylliannol. Rhestrir yr ymgeiswyr llwyddiannus yn Adran 1.8.

**Cyfuno a Chyd-destun Polisi Ehangach Cymru**

2.6 Yn ehangach, mae mynd i'r afael â thlodi a chefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r llywodraeth o dan fframwaith cyffredinol *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (Deddf Llesiant (2015))[6] a'r rhaglen lywodraethu bresennol, *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*[7], a'r strategaeth gyflawni, *Ffyniant i Bawb*[8].

2.7 Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddatblygu dull mwy strategol o lunio polisïau yn seiliedig ar fframwaith o ganlyniadau tymor hwy.[9] Yn yr un modd, mae *Ffyniant i Bawb* (LlC 2017) yn cymryd yr ymrwymiadau sydd yn *Symud Cymru Ymlaen* ac yn eu rhoi mewn cyd-destun strategol hirdymor sydd â'r nod o fynd i'r afael ag achosion tlodi mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. O dan y fframwaith trosfwaol hwn, mae llesiant yn cael ei gydnabod fel un o ganlyniadau allweddol gweithgarwch diwylliannol: mae Deddf Llesiant (2015) yn pwysleisio'n

[6] Llywodraeth Cymru, (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].
[7] Llywodraeth Cymru, (2016). Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].
[8] Llywodraeth Cymru, (2017). Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].
[9] Cyfeirir at y rhain fel y "nodau llesiant", sy'n mynd law yn llaw â "dangosyddion cenedlaethol" lefel uchel a ddefnyddir i fesur cynnydd Cymru yn erbyn y nodau hyn. Mae'r Ddeddf yn darparu'r weledigaeth genedlaethol drosfwaol a'r cyfeiriad strategol ar gyfer llunio polisïau yng Nghymru. Mae'n sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol sydd â mwy o gyfrifoldeb dros atal tlodi a llesiant diwylliannol yn unol â blaenoriaethau lleol ar lefel strategol.

benodol y berthynas rhwng diwylliant a llesiant o dan ei nodau o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a 'Cymru iachach'; ac mae trefniadau monitro ac adrodd Cyfuno yn cysylltu â nodau llesiant a nodau'r Ddeddf a restrir o dan *Ffyniant i Bawb* i helpu i ddangos tystiolaeth o'r cyfraniad y gallai diwylliant ei wneud at lesiant pobl.

2.8 Yn fwy penodol, mae gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer diwylliant, *Golau yn y Gwyll*, yn disgrifio Cyfuno fel dull cyflawni allweddol i helpu i adeiladu cymunedau a datblygu "hyder, sgiliau a chyflogadwyedd" pobl (LIC 2016, t. 2 ac 16).[10]

**Strwythur Cyflawni Cyfuno**

2.9 Mae Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol sy'n cynnwys cyrff diwylliannol allweddol yng Nghymru, yn ogystal â chynrychiolwyr ac adrannau awdurdodau lleol sy'n arwain ar yr amgylchedd hanesyddol, polisi cymunedol ac addysg o fewn y llywodraeth, yn cydlynu ac yn hyrwyddo'r weledigaeth a nodir yn adroddiad Andrews.[11]

2.10 O dan y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol, mae Grŵp Gweithredol yn rheoli Cyfuno. Mae'r grŵp yn cael ei arwain gan MALD gyda chefnogaeth cyrff cyflawni cenedlaethol ar ddiwylliant a threftadaeth, sef Amgueddfa Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a gwasanaeth amgylchedd hanesyddol y llywodraeth, Cadw, sydd hefyd yn asiantau cyflawni a phartneriaid allweddol ar lefel leol. Mae'r grŵp yn ddolen gyswllt rhwng y sector diwylliannol a rhaglenni a sefydliadau eraill, ac yn datblygu, yn cytuno ac yn monitro cynllun cyflawni a chynlluniau gweithredu a chyfathrebu cysylltiedig ar gyfer Cyfuno. Er mwyn helpu i hwyluso'r gwerthusiad parhaus o Cyfuno, mae cydlynydd ymchwil, sy'n gweithio yn Amgueddfa Cymru hefyd yn aelod o'r grŵp. Mae ymchwilwyr cymdeithasol o KAS yn darparu cymorth dadansoddol.

[10] Llywodraeth Cymru (2016). Golau yn y Gwyll. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 17 Mai 2019].
[11] Un o elfennau allweddol adroddiad Andrews oedd dod â sefydliadau diwylliannol ynghyd i wella eu heffaith mewn cymunedau difreintiedig. Cylch gwaith y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol yw hyrwyddo'r newid hwn drwy sicrhau ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, mabwysiadu dull strategol, cynnal momentwm ar gyfer gweledigaeth Andrews a rhannu'r hyn a ddysgir.

2.11 O dan y model cyflwyno Grantiau Her Cyfuno, mae cyrff arweiniol wedi penodi Cydlynydd Cyfuno lleol gyda'r nod o greu rhaglenni a phartneriaethau mwy 'effeithiol' a chysylltu sefydliadau gyda'i gilydd yn well' (LIC 2018. t. 5) ar lefel leol.[12]

2.12 Dylid cysylltu Cyfuno ag amcanion ehangach y llywodraeth ar lefel leol drwy sefydliadau partner ar ôl cysoni adnoddau a darparu gweithgareddau o dan themâu Cyfuno. Adlewyrchir y themâu hyn mewn set o ddangosyddion perfformiad Cyfuno, a restrir yn Atodiad B, a ddefnyddir i fonitro'r rhaglen.

2.13 Mae pob ardal bartneriaeth yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid diwylliannol, megis sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth, yn ogystal â sefydliadau eraill - gan gynnwys cyrff gwirfoddoli, cymdeithasau tai, gwasanaethau iechyd, ysgolion ac asiantaethau cymunedol - a rhaglenni eraill y llywodraeth megis, er enghraifft, *Cymunedau am Waith* a *Dechrau'n Deg*.[13]

**Gwerthusiad Parhaus o Cyfuno - Crynodeb o'r Ymchwil Hyd Yma**

2.14 Yn ei hargymhellion, galwodd y Fonesig Andrews am fwy o gydweithredu ar ymchwil ymhlith sefydliadau diwylliannol a phartneriaid eraill, i helpu i gydgrynhoi ymchwil presennol a nodi bylchau ar gyfer ymchwil pellach yn gysylltiedig â demograffeg, mynediad, cyfranogi ac effaith ymgysylltu (LIC 2014, t. 65 - 57). Mewn ymateb i hynny, ymrwymodd Amgueddfa Cymru i ddarparu arweiniad ar yr agenda ymchwil. Cydlynir y gwerthusiad parhaus gan Amgueddfa Cymru gyda goruchwyliaeth ddadansoddol gan y Tîm Ymchwil Dyfodol Cynaliadwy, yn KAS (LIC 2014, t. 17).[14]

---

[12] Llywodraeth Cymru (2018). Cyfuno Cyflawni yn 2018-19. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].

[13] Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen a noddir gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n wasanaeth gwirfoddol ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf ac sydd angen cymorth ychwanegol a chefnogaeth i ddod o hyd i waith.
Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen Blynyddoedd Cynnar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

[14] Llywodraeth Cymru (2014). Adroddiad diwylliant a thlodi gan y Farwnes Andrews: ymateb gan Lywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].

2.15 Cyhoeddwyd dau adroddiad ymchwil ar y cyfnod peilot: *Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot yr Ardaloedd Arloesi* (LlC 2016)[15], ac adolygiad o ail flwyddyn Cyfuno, yn dwyn y teitl *Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant* (LlC 2017).[16]

*Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot yr Ardaloedd Arloesi*

2.16 Canolbwyntiodd yr adroddiad cyntaf (LlC 2016) ar weithrediad ac effaith y flwyddyn beilot. Cyflwynodd ganlyniadau gwerthusiad o'r broses gyda'r nod o asesu effeithiolrwydd y ffordd y dyluniwyd ac y cyflwynwyd y rhaglen a'r graddau yr oedd cyfranogiad diwylliannol wedi cynyddu o dan Cyfuno mewn ffyrdd a oedd yn mynd i'r afael â chanlyniadau disgwyliedig y rhaglen.

2.17 Canfu'r gwerthusiad fod sefydliadau partner yn dechrau cysoni blaenoriaethau o ran amcanion trechu tlodi. Chwaraeodd y sefydliadau arweiniol ran hanfodol yn y broses hon - drwy greu cysylltiadau a threfniadau cydweithio rhwng partneriaid; llunio strategaeth; cydgysylltu'r partneriaethau; a darparu arweiniad a syniadau. Tynnodd y broses sylw at dystiolaeth gynnar fod partneriaethau wedi ychwanegu gwerth at brosiectau presennol ac wedi rhoi gweithgareddau newydd ar waith. Roedd yna hefyd rywfaint o dystiolaeth ansoddol bod unigolion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ac na fyddent o bosibl wedi gwneud hynny heb gefnogaeth Cyfuno.

2.18 Fodd bynnag, roedd y cyfnod byr o amser ers cyflwyno llawer o weithgareddau, ynghyd â'r dulliau amrywiol o fonitro ar draws yr ardaloedd cyfranogol, yn golygu na allai'r gwerthusiad asesu'r canlyniadau'n drylwyr (LlC 2016, t. 84).

*Ymchwil i'r Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant*

2.19 Roedd yr adolygiad o'r ail flwyddyn (LlC 2017) yn llai uchelgeisiol o ran ei gwmpas. Roedd yn canolbwyntio ar gael barn rhanddeiliaid diwylliannol, gyda'r nod o asesu effaith Cyfuno ar eu sefydliadau eu hunain.

2.20 Yn gyffredinol, roedd barn cyfranogwyr yr ymchwil yn gadarnhaol am Cyfuno. Gan mwyaf, ystyriwyd bod y manteision yn gorbwyso unrhyw heriau, ac yn cynnwys y

---

[15] Llywodraeth Cymru (2016). Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].
[16] Llywodraeth Cymru (2017). Cyfuno: creu cyfleoedd drwy ddiwylliant, adolygiad o'r ail flwyddyn. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 22 Awst 2019].

cyfleoedd a ddarparwyd gan bartneriaethau ar gyfer cydweithredu - gan godi proffil ac amlygu cyfraniad rhanddeiliaid diwylliannol i drechu tlodi wrth wneud hynny. Roedd sefydliadau diwylliannol hefyd yn teimlo eu bod yn targedu grwpiau newydd mewn cymunedau difreintiedig ac yn ymgysylltu â hwy, a hynny i raddau mwy.

2.21 Nodwyd meysydd i'w gwella hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys galwadau i wella sut y cydlynwyd partneriaethau ar lefel sefydliad arweiniol. Teimlwyd y byddai hyn yn annog mwy o gydweithio rhwng partneriaid, ac yn ymgorffori Cyfuno ymhellach ar draws yr ardaloedd sy'n cymryd rhan.

*Datblygu Canfyddiadau'r Cyfnod Peilot*

2.22 Amlygodd y ddau adroddiad (LIC 2016, 2017) werth defnyddio diwylliant i drechu tlodi ac anfantais mewn cymunedau ledled Cymru a chanfu, drwy gefnogi partneriaethau strategol, fod Cyfuno wedi hwyluso mwy o gydweithredu'n lleol ac wedi helpu i egluro’r canlyniadau.

2.23 Fodd bynnag, tynnodd y ddau adroddiad sylw hefyd at faterion yn ymwneud â'r capasiti a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer rhwydweithio, cydweithio ac ar gyfer darparu gweithgareddau. Yn ôl yr ymchwil, gallai amserlen adrodd hwy alluogi cynllunio yn y tymor hwy a chyflwyno gweithgareddau'n well, a hefyd helpu i hwyluso mwy o gydweithio ar draws partneriaethau. Amlygodd yr ymchwil hefyd anawsterau cydlynu Cyfuno ar lefel leol, a oedd yn rhoi pwysau ar gapasiti cyrff cyflawni arweiniol i weithredu partneriaethau lleol a chyllido gweithgareddau. Nod Grantiau Her Cyfuno yn rhannol oedd mynd i'r afael â hyn, drwy gynnwys recriwtio cydlynydd fel un o'r amodau ac amserlen dwy flynedd ar gyfer cyllid ac adrodd (a estynnwyd ers hynny i dair blynedd fel rhan o gyfnod pontio).

2.24 Roedd y ddau adroddiad hefyd yn tynnu sylw at nifer o fylchau yn y llenyddiaeth bresennol a'r sylfaen dystiolaeth ehangach ynghylch diwylliant a llesiant, gan gynnwys diffyg ymchwil cadarn ar fynychu digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol ac ychydig o astudiaethau ymchwil ar raddfa fawr. Nodwyd bod y bylchau hyn yn arbennig o gyffredin yng Nghymru, lle nad oes ymchwil ar raddfa fawr ar y cyd-destun penodol.

2.25 O ganlyniad, comisiynwyd dadansoddiad ar wahân i archwilio'r berthynas bosibl rhwng diwylliant a llesiant gan ddefnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe ymchwil gymdeithasol Llywodraeth Cymru yn ystod haf 2019.

2.26 Fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o Cyfuno, comisiynwyd yr ymchwil hwn i adolygu Grantiau Her Cyfuno, ac effeithiolrwydd rôl y cydlynydd fel agwedd allweddol ar ddatblygiad y rhaglen.

## 3. Methodoleg

3.1 Mae'r adran hon yn nodi'r dulliau ymchwil a'r cwmpas, ac yn crynhoi cryfderau a chyfyngiadau'r dull methodolegol a fabwysiadwyd.

*Dulliau*

3.2 Er mwyn mynd i'r afael â nodau ac amcanion yr ymchwil, datblygwyd cynllun ymchwil ar sail dulliau cymysg. Casglwyd tystiolaeth rhwng mis Medi 2018 a mis Mehefin 2019. Roedd y fethodoleg yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Arolwg ar-lein a anfonwyd ym mis Awst 2018, gyda'r nod o gasglu safbwyntiau a phrofiadau personol cydlynwyr a sefydliadau partner fel ei gilydd.[17] Yn unol â gofynion diogelu data, gwahoddwyd unigolion o gyrff cyflawni arweiniol i gymryd rhan yn yr elfen hon o'r ymchwil yn y lle cyntaf.[18] Roedd y prif gyrff cyflawni yn gyfrifol am nodi a chysylltu â sampl ehangach o sefydliadau partner Cyfuno, gan anfon y gwahoddiad a'r ddolen i'r arolwg at gysylltiadau o'u rhwydweithiau Cyfuno yn eu hardal leol.[19] Daeth yr arolwg i ben ym mis Medi 2018. Daeth cyfanswm o 55 o ymatebion i law: naw ymateb o bob un o'r wyth ardal Cyfuno naill ai gan gydlynydd neu rywun yn ymateb ar ran eu corff arweiniol mewn ardaloedd lle nad oedd cydlynydd yn ei swydd; a 46 gan unigolion yn ymateb ar ran sefydliad partner.
- Cwblhawyd cyfweliadau ansoddol manwl gyda phob un o'r wyth Cydlynydd Cyfuno yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2019.[20]
- Cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol hefyd gyda sampl fach (n=8) o randdeiliaid o sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhai o'r rhwydweithiau ar lefel partneriaeth. Yn unol â gofynion diogelu data, anfonodd Cydlynwyr Cyfuno wahoddiad i

---

[17] Roedd yr arolwg yn weithredol rhwng 31 Awst a 21 Medi 2018. Anfonwyd e-bost atgoffa at y prif gyrff cyflawni (er mwyn iddynt eu hanfon ymlaen at sefydliadau partner hefyd) a hefyd ar 12 a 19 Medi.
[18] Mewn dwy ardal bartneriaeth Cyfuno, nid oedd Cydlynwyr Cyfuno lleol yn eu swyddi ar y pryd. Yn yr achosion hyn, anfonwyd yr arolwg at eu cymheiriaid unigol i'w gwblhau ar eu rhan.
[19] Ar ôl derbyn y gwahoddiad a'r ddolen i'r arolwg gan yr ymchwilydd arweiniol yn Amgueddfa Cymru, gofynnwyd i gydlynwyr neu gynrychiolwyr cyrff arweiniol weithredu fel cyfryngwyr ac anfon yr arolwg a'r Hysbysiad Preifatrwydd cysylltiedig at y sefydliadau hynny sy'n ymwneud â dylunio a darparu gweithgareddau yn lleol ar lefel partneriaeth Cyfuno.
[20] Lle y bu rôl y Cydlynydd yn wag yn flaenorol mewn rhai ardaloedd pan ddosbarthwyd yr arolwg, roedd unigolion wedi'u penodi i'r rolau hyn erbyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal.

gyfweliad at unigolion o sampl o sefydliadau partner a nodwyd gan yr ymchwilwyr. Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019.

3.3 Roedd y cwestiynau ar gyfer yr ymchwil hon yn seiliedig ar themâu a ddatblygwyd o nodau ac amcanion yr adolygiad ac yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dealltwriaeth o raglen Cyfuno a Grantiau Her Cyfuno, a rôl y cydlynydd
- Dylunio a darparu Grantiau Her Cyfuno
- Heriau a meysydd i'w gwella

3.4 Datblygwyd offer ymchwil i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Roedd yr offer yn cynnwys arolwg ar-lein, a weinyddwyd drwy'r feddalwedd arolygon Questback, a oedd yn cynnwys cyfres o gwestiynau caeedig a phenagored wedi'u targedu'n benodol at gydlynwyr a sefydliadau partner. Datblygwyd dau ganllaw cyfweld lled-strwythuredig hefyd: un ar gyfer cydlynwyr ac un arall ar gyfer sefydliadau partner. Datblygwyd hysbysiadau preifatrwydd a deunyddiau esboniadol gyda gwybodaeth am yr adolygiad hefyd, i sicrhau bod gofynion diogelu data a moesegol yn cael eu bodloni. Rhestrir cwestiynau'r arolwg a'r canllawiau cyfweld yn Atodiadau C, Ch a D yn y drefn honno. Mae'r Hysbysiadau Preifatrwydd ynghlwm fel dogfen ar wahân i'r prif adroddiad ar dudalennau gwe ymchwil gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

3.5 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ar: ymwybyddiaeth yr ymatebydd a'i ymwneud â Cyfuno; canfyddiadau o broses ac effaith y rhaglen; cryfderau a gwendidau'r dull gweithredu; ac unrhyw feysydd i'w gwella.

3.6 Gan adeiladu ar brif ganlyniadau'r arolwg, datblygwyd canllaw cyfweld lled-strwythuredig ar gyfer cydlynwyr i ymchwilio ymhellach i'w safbwyntiau a'u profiadau. Nod y canllaw oedd holi'n fanylach am y meysydd pwnc a'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg o'r arolwg, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol ynghylch: y cyd-destun cyflawni a phartneriaeth o fewn rhwydweithiau Cyfuno lleol; yr hyn yr ystyriwyd ei fod yn gweithio'n dda a'r hyn nad oedd yn gweithio cystal o fewn rhwydweithiau, gan gynnwys canfyddiadau o'r llwyddiannau allweddol ac unrhyw fanteision, heriau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Cyfuno; ac awgrymiadau ar ba welliannau y gellid eu gwneud i'r rhaglen ar lefel partneriaeth ardal leol. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gyda phob un o'r wyth cydlynydd

Cyfuno; saith yn Saesneg ac un yn Gymraeg. Gweler Atodiad Ch am gopi o'r canllaw cyfweld â chydlynwyr.

3.7 Datblygwyd canllaw cyfweld hefyd ar gyfer cyfweliadau â sefydliadau partner. Roedd y gwaith maes gyda sefydliadau partner yn llai manwl nag ar gyfer cydlynwyr oherwydd bod y cyfweliadau wedi'u cyfyngu i tua hanner awr. Fodd bynnag, casglodd y cyfweliadau dystiolaeth ar feysydd tebyg. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar dystiolaeth yn ymwneud â chyfranogi mewn rhwydweithiau ardaloedd lleol a chyflwyno gweithgareddau. Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gydag wyth sefydliad partner ar draws pedair o'r wyth ardal bartneriaeth; dau yn Gymraeg a chwech yn Saesneg. Gweler Atodiad D am gopi o'r canllaw cyfweld â sefydliadau partner.

3.8 Derbyniwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr holl ymatebwyr i'r arolwg a'r rhai a gafodd eu cyfweld; darparwyd yr holl wybodaeth angenrheidiol am eu cyfraniad at yr adolygiad a'r defnydd o'u data personol mewn deunyddiau briffio a hysbysiadau preifatrwydd cysylltiedig cyn iddynt gymryd rhan.

3.9 Cafodd y cyfweliadau cyntaf o bob grŵp rhanddeiliaid eu trin fel peilot i brofi a gwella'r canllaw, yn enwedig cwestiynau'r cyfweliad. Rhoddwyd graddau amrywiol o ffocws ar bob maes o'r canllaw yn ystod y cyfweliad, yn dibynnu ar brofiadau'r rhanddeiliaid. Recordiwyd a thrawsgrifiwyd yr holl gyfweliadau at ddibenion dadansoddi. Datblygwyd system godio yn ystod camau gwaith maes a dadansoddi yr ymchwil, yn seiliedig ar gyfuniad o'r meysydd thematig a ddatblygwyd yng nghynllun yr ymchwil a phrif ganfyddiadau'r arolwg. Trafodir y themâu a'r is-themâu a nodwyd yn adran canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae siartiau a dyfyniadau enghreifftiol wedi'u cynnwys i helpu i ddarlunio a dangos tystiolaeth o'r canfyddiadau.

*Cyfyngiadau'r fethodoleg*

3.10 Mae rhai cyfyngiadau i'r fethodoleg ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Materion yn ymwneud â'r strategaeth samplu ar gyfer yr arolwg ar-lein: roedd sampl yr arolwg yn dibynnu ar y manylion a ddarparwyd i gydlynwyr gan y rhwydwaith Cyfuno ehangach yn eu hardal leol, na ellid eu rhannu gyda'r

ymchwilwyr oherwydd gofynion diogelu data. Oherwydd bod cydlynwyr wedi anfon y gwahoddiad a dolen at sefydliadau partner, nid oedd yn bosibl casglu gwybodaeth am y nifer a samplwyd a nodi'r gyfradd ymateb ar gyfer sefydliadau partner. Mae'r canlyniadau'n rhoi cipolwg ar un pwynt mewn amser, a gallai dibynnu ar gydlynwyr i nodi'r rhanddeiliaid yr oeddent wedi gweithio â hwy fod wedi arwain at ragfarn bosibl o ran dethol y sampl; gyda'r sefydliadau partner hynny sydd wedi gweithio'n agosach gyda'r cydlynydd ac ardaloedd a chanddynt bartneriaethau mwy sefydledig yn debygol o gael eu gorgynrychioli yn y sampl. Nod yr ymchwil oedd lliniaru hyn drwy nodi'r sampl o sefydliadau partner i gyfweld â hwy yn ystod y gwaith maes ansoddol a chynnwys gwahanol fathau o sefydliadau partner.

- Nifer fach o ymatebion i'r arolwg: yn seiliedig ar wybodaeth adrodd a gyflwynwyd gan y cydlynwyr i MALD, yn gyffredinol, cafwyd cyfradd ymateb isel i'r arolwg. Ar gyfer rhai o'r ardaloedd Cyfuno, ni chafwyd unrhyw ymatebion gan sefydliadau partner. Fodd bynnag, roedd yr amser a oedd ar gael i'r ddau grŵp rhanddeiliaid ymateb yn gyfyngedig ac mae adborth gan rai o'r cydlynwyr yn awgrymu bod hyn wedi effeithio ar y gyfradd ymateb ar gyfer eu hardaloedd. Cymerwyd gofal i beidio â gorddatgan canfyddiadau'r arolwg, yn enwedig o ystyried y nifer fach iawn o ymatebion i rai o'r cwestiynau.
- Anallu i gyffredinoli canlyniadau'r arolwg: gall barn yr ymatebwyr fod yn wahanol i farn y rhai na wnaethant gymryd rhan yn yr arolwg, felly ni ellir cyffredinoli ynghylch y canlyniadau a dylid cymryd gofal wrth eu dehongli. Dangosol yw'r canfyddiadau ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli barn y grŵp rhanddeiliaid ehangach.
- Rhagfarnau posibl o fewn y data hunangofnodedig: gofynnwyd i'r rhai a holwyd roi sylwadau ar eu profiadau o gymryd rhan mewn Grantiau Her Cyfuno. Roedd hyn yn aml yn cynnwys casglu adborth gan unigolion mewn rolau a ariannwyd gan y rhaglen. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar ganfyddiadau o effaith yn seiliedig ar farn cyfranogwyr ymchwil yn hytrach nag ar y data canlyniadau a gasglwyd fel rhan o fonitro'r rhaglen Cyfuno. Mae crynodeb o'r data canlyniadau, gyda chafeatau, yn Atodiad Dd.

- Sampl gymharol fach o sefydliadau partner: mae hyn yn cyfyngu ar i ba raddau y gellir ystyried bod y canfyddiadau'n gadarn, yn enwedig o ran sectorau a mathau penodol o sefydliadau a'r bylchau mewn ymatebion ar gyfer rhai ardaloedd Cyfuno. Nid oedd yr adolygiad yn ceisio barn sefydliadau nad ydynt wedi ymgysylltu â Cyfuno. Nid oedd yr adolygiad ychwaith yn ymchwilio i farn y rhai sydd wedi cyfranogi mewn gweithgareddau Cyfuno.

3.11 Dylid ystyried y cyfyngiadau uchod wrth ddarllen canfyddiadau'r adolygiad hwn, a gyflwynir yn yr adran nesaf.

# 4. Canfyddiadau

4.1 Yn yr adran hon, cyflwynir canfyddiadau'r arolwg ar-lein a'r cyfweliadau â chydlynwyr Cyfuno a sampl o gynrychiolwyr o sefydliadau partner. Gan fynd i'r afael ag amcanion yr adolygiad, i ddechrau mae'r adran hon yn ymchwilio i farn ar nodau ac amcanion y rhaglen Cyfuno, cyn darparu trosolwg o ddylunio, gweithredu a chyflawni Grantiau Her Cyfuno drwy ganolbwyntio ar brosesau'r rhaglen a rôl Cydlynwyr Cyfuno. Daw i ben gyda throsolwg o'r heriau sy'n wynebu rhwydweithiau partneriaeth ardaloedd lleol, ynghyd â throsolwg o awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r rhaglen Cyfuno ac, yn fwy penodol, Grantiau Her Cyfuno a'r rhwydweithiau partneriaeth y mae'n eu cefnogi.

4.2 Dadansoddwyd data'r arolwg a'r cyfweliad ar wahân fel tasgau gwahanol cyn i'r canlyniadau gael eu tynnu ynghyd i'w defnyddio fel sail i'r dadansoddiad isod. Mae'r adran hon yn disgrifio'r unigolion hynny a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein fel 'ymatebwyr'. Er mwyn gwahaniaethu rhwng cyfranogwyr o'r ddau grŵp rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, disgrifir cydlynwyr Cyfuno fel 'cydlynwyr a gyfwelwyd', a disgrifir y rhanddeiliaid o sefydliadau partner fel 'sefydliadau partner a gyfwelwyd'.

*Arolwg Ar-lein*

4.3 Cafwyd cyfanswm o 55 o ymatebion i'r arolwg. Fodd bynnag, nid oedd pob cwestiwn yn yr arolwg yn orfodol. Gofynnwyd cwestiynau yn dibynnu a oedd yr ymatebydd yn gydlynydd Cyfuno neu'n sefydliad partner, ac roedd llawer o'r cwestiynau yn rhai ag opsiynau ymateb lluosog. Felly, nid yw canlyniadau'r arolwg ar gyfer cwestiynau unigol bob amser yn adlewyrchu'r gyfradd ymateb gyffredinol. Er eglurder, nodir cyfanswm yr ymatebion i gwestiwn penodol yn llawn pan fydd canfyddiadau'r arolwg yn cael eu trafod.

*Cyfweliadau â Chydlynwyr Cyfuno*

4.4 Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda phob un o'r wyth Cydlynydd Cyfuno lleol. Dylid nodi bod y Cydlynwyr Cyfuno lleol a gyfwelwyd, rhyngddynt, wedi bod yn y swydd am wahanol gyfnodau o amser; a bod sawl un o'r prif ardaloedd Cyfuno wedi cael cyfnodau heb Gydlynydd, tra bod proses recriwtio neu ailrecriwtio'n mynd rhagddi.

4.5 Mae cyfnod cyfranogi yr 8 prif gorff Cyfuno yn y rhaglen yn amrywio, gyda 5 wedi cymryd rhan ers sefydlu Cyfuno yn 2015, un ers 2016 (blwyddyn beilot 2), ac un ers 2017 (blwyddyn 3). O ran trefniadau llywodraethu, mae 7 o'r prif gyrff darparu yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, ac un yn cael ei redeg gan gymdeithas dai.

*Cyfweliadau â Sefydliadau Partner*

4.6 Nod y strategaeth samplu oedd cyfweld â chynrychiolwyr o sefydliad partner ar draws pob un o'r wyth rhwydwaith Cyfuno a restrir yn Adran 1.7. Datblygwyd y strategaeth i gynnwys sefydliadau a fu'n ymwneud â Cyfuno i amrywiol lefelau ac am wahanol gyfnodau o amser, ac a oedd yn gweithredu ar draws mwy nag un maes partneriaeth. Recriwtiwyd cyfweleion o bedair o'r wyth ardal a gymerodd ran, o ystod o sefydliadau diwylliannol, gan gynnwys asiantaethau a noddir gan y llywodraeth a sefydliadau llywodraeth leol, y trydydd sector a'r sector preifat. Cyfwelwyd â chyfanswm o wyth cynrychiolydd o bartneriaid rhwydwaith Cyfuno.

4.7 Mae'r paragraffau canlynol yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad yn erbyn yr amcanion a restrir yn Adran 3.4.

## Dealltwriaeth o'r rhaglen Cyfuno a Grantiau Her Cyfuno a rôl y cydlynydd

4.8 Yn ystod blynyddoedd peilot y rhaglen, disgrifiwyd dull Llywodraeth Cymru o gysylltu partneriaid cymunedol a diwylliannol â'i gilydd drwy Cyfuno fel dull “unigryw a radical” o drechu tlodi; ac o'r herwydd, nid oedd dull na fframwaith ar gael eisoes i arwain y rhaglen. Er mwyn i lunwyr polisïau a phartneriaid cyflawni allu dysgu o brosesau dylunio, gweithredu a chyflawni'r rhaglen a'u mireinio a'u haddasu, cafodd y blynyddoedd peilot eu cyflwyno fel proses ailadroddol. (LlC 2016, t. 29). Lansiwyd Grantiau Her Cyfuno ym mis Chwefror 2017 gyda'r bwriad o greu capasiti o fewn yr ardaloedd sy'n cymryd rhan drwy gyfrannu tuag at gost rolau cydlynwyr a allai helpu i hwyluso dull mwy strwythuredig o ddylunio a darparu gweithgareddau ar lefel leol. Serch hynny, mae'r rhaglen yn cydnabod yr angen i ystyried cyd-destun a gwybodaeth leol a'i nod yw cydnabod gwahanol anghenion yr ardaloedd sy'n cymryd rhan. Mae sawl ffactor yn llywio cyfansoddiad pob ardal sy'n cymryd rhan ac yn cyfrannu at hynny; ac mae nodweddion ardaloedd partneriaeth, eu trigolion a'u

hasiantaethau, a'r ffactorau allanol sy'n effeithio arnynt, yn amrywio. Bydd y ffactorau hyn wedi dylanwadu ar ddealltwriaeth a phrofiadau rhanddeiliaid o'r rhaglen Cyfuno.

**Cyfansoddiad rhwydweithiau partneriaeth lleol**

4.9 O ran strwythur partneriaethau ardaloedd lleol, rheolwyd pob rhwydwaith gan gydlynydd ymroddedig o fewn Prif Gorff Darparu; yn y rhan fwyaf o achosion, o adran yn yr Awdurdod Lleol a oedd yn cymryd rhan, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi'i arwain gan Gymdeithas Tai. Penderfynwyd ar aelodaeth pob partneriaeth yn lleol. Roedd gan brif gyrff darparu a chydlynwyr berthynas â rhai partneriaid eisoes; llawer ohonynt yn deillio o brofiadau blaenorol o gymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno.

4.10 Er gwaethaf nifer cyfyngedig y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda sefydliadau partner ar gyfer yr adolygiad hwn, recriwtiwyd cyfweleion o ystod o sectorau (e.e. ffilm, y celfyddydau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, cerddoriaeth, addysg a'r trydydd sector). Roedd gan bob un o'r rhai a gyfwelwyd brofiad o weithio mewn un maes partneriaeth yn unig. Fodd bynnag, er bod mwyafrif y cyfweleion wedi'u lleoli mewn safle penodol (e.e. canolfan y celfyddydau, llyfrgell, sinema), roedd y mwyafrif yn gweithredu ar draws gwahanol leoliadau yn eu priod ardaloedd rhwydwaith lleol. Disgrifiodd rhai o'r cyfweleion o sefydliadau partner eu cylch gwaith fel cyfuniad o dasgau mwy ffurfiol ar y safle a mwy o weithgareddau rhwydweithio estynedig neu gymunedol. Roedd cymysgedd o gyfweleion yr oedd eu sefydliadau wedi cymryd rhan yn Cyfuno i ryw raddau o'r cychwyn ac eraill yn gymharol newydd i'r rhaglen, a oedd â phrofiad o Grantiau Her Cyfuno (a rôl y cydlynydd fel rhan annatod o hyn) yn unig.

4.11 Myfyriodd y cydlynwyr a'r sefydliadau partner a gyfwelwyd ar gyfansoddiad eu priod rwydweithiau partneriaeth. I wahanol raddau, tynnodd pob un o'r cydlynwyr sylw at y ffaith bod cynrychiolaeth o sbectrwm eang o sectorau ar eu rhwydwaith. Yn hytrach na bod yn gyfyngedig i'r sefydliadau hynny a oedd yn draddodiadol yn cael eu hystyried neu eu categoreiddio fel rhai sy'n perthyn i'r sectorau celfyddydau, treftadaeth a diwylliannol, roedd yr aelodaeth yn ehangach ac yn cynnwys, er enghraifft: sefydliadau o'r sectorau addysg, cyflogadwyedd a thai. Disgrifiodd y

cydlynwyr hefyd eu partneriaid fel rhai a oedd yn amrywio o'r sectorau statudol, masnachol a gwirfoddol, yn ogystal â chynnwys rhaglenni a ariennir gan y llywodraeth (e.e. Dechrau'n Deg, Cymunedau am Waith). Rhyngddynt, rhoddodd y Cydlynwyr enghreifftiau o gynrychiolaeth gan y rhai a gategoreiddiwyd fel a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- Y celfyddydau, e.e. orielau, theatrau, canolfannau celfyddydol, artistiaid annibynnol
- Sefydliadau treftadaeth, e.e. Archifau, cyrff archeolegol
- Llyfrgelloedd
- Sefydliadau neu raglenni addysgol, e.e. prifysgolion, colegau, ysgolion
- Partneriaid Cenedlaethol Cyfuno, e.e. Dechrau'n Deg, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Kids in Museums, Cadw, Llenyddiaeth Cymru
- Rhaglenni cyflogadwyedd, e.e. Cymunedau am Waith, Canolfan Byd Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Adrannau penodol cynghorau, e.e. dysgu, gwasanaethau diwylliannol
- Y diwydiant cerddoriaeth, e.e. Cerddorion, trefnwyr gwyliau
- Tai, e.e. cymdeithasau tai
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Chwaraeon, e.e. canolfannau hamdden
- A'r rhai sy'n cynrychioli cyrff masnachol, gwirfoddol, elusennol a statudol a grwpiau cymunedol

4.12 Disgrifiodd y sefydliadau partner a gyfwelwyd gyfansoddiad eu partneriaethau mewn geiriau cadarnhaol iawn, gan ystyried bod cymysgedd da o sefydliadau a sectorau ynghyd â chynrychiolaeth o'r hyn a ystyriwyd yn sefydliadau allweddol. Pan ofynnwyd iddynt, nid oedd yr un o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod unrhyw sectorau wedi'u tangynrychioli na bod unrhyw fylchau amlwg yng nghyfansoddiad eu partneriaethau. Soniodd rhai o'r sefydliadau partner a gyfwelwyd am nodau cyffredin ar draws sefydliadau, er y gallent fod wedi'u lleoli mewn gwahanol

sectorau. Disgrifiodd eraill eu rhwydwaith fel un amrywiol a oedd yn cynnwys sefydliadau na fyddent wedi meddwl amdanynt yn wreiddiol fel partneriaid diwylliannol (e.e. clybiau rygbi, pêl-droed a hwylio), neu fel canolbwynt ar gyfer datblygu syniadau. Priodolodd un o'r rhai a gyfwelwyd amrywiaeth ei rwydwaith i'r "ffaith bod [yr aelodau] yn ei ystyried yn rhywbeth perthnasol iawn...", a thynnodd un arall sylw at nodau cyffredin yn ymwneud â gwella'r ardal leol a chyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd: *"… mae yna rywbeth y gellir ei ddysgu oddi wrth bron pawb yr ydych wedi gweithio â nhw"*. I'r unigolyn hwn, y ffaith bod llu o bobl a sefydliadau yn ymwneud â'i rwydwaith a oedd yn gyfrifol am ei lwyddiant. Roedd eraill yn gweld eu partneriaeth fel canolbwynt bron i sefydliadau'r trydydd sector yn eu hardal, ac yn ystyried rhychwant y gweithgareddau yr oedd y cydlynydd yn cymryd rhan ynddynt, a oedd wedi'u hanelu at wahanol grwpiau ac yn amrywio ar draws y ddarpariaeth ddiwylliannol, fel tystiolaeth o rwydwaith amrywiol o fewn ardal eu partneriaeth leol. Yn wir, dywedodd dau gydlynydd eu bod wedi mynd ati'n fwriadol i wahodd sefydliadau na fyddent o reidrwydd yn cael eu cysylltu ar unwaith â'r rhaglen Cyfuno (e.e. sefydliadau bywyd gwyllt, clybiau chwaraeon, clybiau ieuenctid) i ymuno â'u partneriaeth oherwydd eu bod yn teimlo bod gan y sefydliadau hyn o bosibl ddealltwriaeth ychwanegol o ddylunio a darparu gweithgareddau ar lefel fwy lleol.

4.13 Soniodd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd fod rhai sefydliadau neu sectorau nad oeddent yn gweithio gyda nhw, neu yr hoffent wneud mwy o waith gyda nhw. Yn nodedig, dywedodd hanner y cydlynwyr eu bod wedi gwneud ychydig neu ddim gwaith gyda Dechrau'n Deg, gyda rhai yn sôn bod cysylltu â nhw neu glywed yn ôl ganddynt wedi bod yn her. Roedd pob un yn priodoli hyn i ddiffyg adnoddau yn swyddfa leol Dechrau'n Deg, yn hytrach nag amharodrwydd i gymryd rhan. Trafododd un cydlynydd sut yr oedd Dechrau'n Deg yn gweithio'n dda yn rhai o'i ardaloedd lleol, a'u bod eisiau efelychu'r gwaith hwn mewn ardaloedd eraill - ond unwaith eto bod diffyg capasiti o fewn Dechrau'n Deg wedi bod yn her. Ymhlith y sefydliadau eraill y nododd y cydlynwyr eu bod eisiau gwneud mwy o waith â nhw roedd: prifysgolion, llyfrgelloedd, Casgliad y Werin Cymru, neu adrannau neu dimau penodol yn y cyngor.

4.14 Dywedodd sefydliad partner a gyfwelwyd, er ei fod yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r cymysgedd o bobl yn y bartneriaeth a'r sefydliadau a'r sectorau a oedd yn rhan

ohoni, ei fod yn teimlo nad oedd rhai partneriaid a ddylai fod yn cymryd rhan yn eu rhwydwaith, hyd y gwyddai, wedi ymateb i wahoddiadau i wneud hynny. Yn ôl yr unigolyn hwn, er bod y rhwydwaith yn agored i bawb, roedd cyfranogiad yn dibynnu ar a oedd pobl yn ymwybodol o'r gwaith, ac roedd hon yn broblem ehangach yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti sefydliadau unigol.

**Y ddirnadaeth o Cyfuno a'i nodau**

4.15 Roedd cyfweliadau â chydlynwyr a sefydliadau partner yn cynnwys cwestiynau ynghylch dirnadaeth y rhai a gyfwelwyd o nodau Cyfuno. Ar draws y ddau grŵp o randdeiliaid roedd dealltwriaeth gyson o'r hyn yr oedd y rhaglen yn ceisio'i gyflawni. Disgrifiodd y cydlynwyr ef fel prosiect a oedd yn ceisio ymgysylltu â phobl heb gynrychiolaeth ddigonol drwy geisio dod o hyd i ffyrdd o wneud diwylliant yn fwy hygyrch ac annog mwy o gyfranogiad ymhlith y rhai sy'n wynebu rhwystrau i gyfranogi; a defnyddio cyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddiwylliant i gyflawni amcanion ehangach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er enghraifft, gwella addysg. Pwysleisiodd sawl Cydlynydd a gyfwelwyd hefyd fod Cyfuno yn canolbwyntio ar sicrhau bod y sectorau diwylliannol yn fwy hygyrch ynddynt eu hunain. Yn aml, disgrifiwyd amcanion trosfwaol Cyfuno drwy gyfeirio at y cyd-destunau penodol neu'r cymunedau yr oedd cydlynwyr yn gweithredu ynddynt.

*"… mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn gweithio i geisio galluogi pobl o ardaloedd mwy difreintiedig yn ein cymunedau i gael mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; ond hefyd i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth allu cefnogi'r bobl hynny ar eu teithiau, naill ai i waith, i wella eu cyfleoedd mewn bywyd, i wella eu haddysg a'u cyrhaeddiad..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd].

4.16 Roedd gan y sefydliadau partner a gyfwelwyd hefyd ddealltwriaeth gadarn o weledigaeth gyffredinol Cyfuno. Roedd pawb a gyfwelwyd yn rhoi'r rhaglen yng nghyd-destun trechu tlodi. Ond yn hytrach na chyfeirio at amcanion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn y lle cyntaf cyfeiriodd y rhan fwyaf yn benodol at dargedu gweithgareddau at gymunedau difreintiedig er mwyn ymgysylltu ag unigolion neu grwpiau nad oeddent wedi cymryd rhan mewn diwylliant o'r blaen neu a oedd yn cael anawsterau o ran cael mynediad at gyfleusterau ac adnoddau, a chreu cyfleoedd iddynt:

*"…mae'n ymwneud â cheisio ymgysylltu â phobl na fyddent yn ymgysylltu fel arall... pobl nad oes ganddyn nhw fynediad i'r celfyddydau am ba reswm bynnag, boed yn gefndir neu'n statws ariannol neu deuluol."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

*"…mae'n rhaglen i gynyddu mynediad at ddiwylliant i'r rhai sydd anoddaf eu cyrraedd. Felly, yn amrywio o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, i bobl anabl, pobl ifanc, teuluoedd un rhiant ... unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad i bethau fel celf neu gerddoriaeth neu ffilm, neu unrhyw beth felly, a rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

4.17 Roedd un sefydliad partner a gyfwelwyd o'r farn mai un o amcanion Cyfuno yw ceisio newid canfyddiadau pobl o ddiwylliant a newid *"…agweddau a barn pobl nad ydyn nhw efallai'n meddwl bod diwylliant yn rhywbeth iddyn nhw neu'n berthnasol iddyn nhw, fel bod y bobl hynny yn gallu gweld bod diwylliant yn rhywbeth i bawb".* Disgrifiodd sefydliad arall a gyfwelwyd anawsterau pobl wrth ymgysylltu â diwylliant a chael mynediad iddo o ran rhwystrau ffisegol, megis diffyg mynediad at drafnidiaeth a gofal plant.

4.18 Amlygodd y cydlynwyr a gyfwelwyd ffocws Cyfuno ar annog gweithio mewn partneriaeth neu gydweithio ar draws ac o fewn sectorau, ac roeddent yn teimlo bod hyn anelu at: harneisio a gwella cryfderau sefydliadol; nodi dyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth; a gwasanaethu'r gymuned yn well. Dangosir y ddau bwynt cyntaf yn y dyfyniad hwn:

*"Mae'n ymwneud a meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig a chysylltu'r sefydliadau'n bennaf ... mae gennym lawer o weithgareddau. Mae'n ymwneud â dod â phartneriaid ynghyd i sicrhau nad ydym yn dyblygu a'n bod yn cydweithio'n effeithiol."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.19 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r cydlynwyr a gyfwelwyd at y manteision iechyd ac economaidd amrywiol sy'n gysylltiedig â chyfranogiad diwylliannol. Soniodd un Cydlynydd yn benodol am adroddiad 2014 y Farwnes Kay Andrews ar Ddiwylliant a Thlodi. Disgrifiodd ambell sefydliad partner a gyfwelwyd un o amcanion allweddol Cyfuno fel gweithio mewn partneriaeth, gyda'r nod o ddod â sectorau, sefydliadau ac unigolion ynghyd i greu cyfleoedd diwylliannol ar gyfer grwpiau difreintiedig neu

sydd wedi ymddieithrio o fewn cymunedau. *"…i wneud yn siŵr eu bod yn cael y cyfleoedd hynny, sydd ddim yn gyfyngedig i'r rhai sy'n gallu eu fforddio neu sydd mewn ardaloedd penodol yn unig..."*. Yn ddigymell, disgrifiodd ambell sefydliad partner a gyfwelwyd ganlyniadau penodol (e.e. iechyd a llesiant, addysg a chyflogaeth) fel un o amcanion y bartneriaeth hon; ac roeddent yn gweld bod gan bartneriaid rôl allweddol wrth helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau hyn. Er enghraifft, roedd y partner hwn o'r farn bod Cyfuno yn ymwneud â:

*"…gwella iechyd a llesiant, llwybrau at waith, ac i ni, ymgysylltu â phobl ifanc ... mae'r sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chelfyddydol sy'n ymwneud â Cyfuno mewn sefyllfa i wneud hynny, yn enwedig os ydyn nhw'n cydweithio."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

4.20 Mewn gwrthgyferbyniad â'r Cydlynwyr eraill, awgrymodd un Cydlynydd mai byrdwn Cyfuno yn ei ardal leol yw cyflawni nodau'r rhaglen yn benodol drwy wella llythrennedd ariannol a sgiliau digidol. Disgrifiodd y cydlynydd hwn sut yr oedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a gefnogir gan Cyfuno yn ei ardal ef yn canolbwyntio ar brosiectau wedi'u hanelu at wella llythrennedd ariannol a sgiliau digidol, a'i fod yn gweithio gydag athrawon i dargedu gweithgareddau tuag at ddisgyblion.

4.21 Awgrymodd rhai cydlynwyr a gyfwelwyd hefyd eu bod yn teimlo bod gan bartneriaid Cyfuno well dealltwriaeth o rôl Cyfuno nawr ei fod wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn. Cyfeiriodd ambell gydlynydd at y syniad bod gan sefydliadau partner fwy o ymddiriedaeth neu hyder yn y rhaglen nawr eu bod yn gallu gweld enghreifftiau o gyfranogiad llwyddiannus.


*"Mae'n rhaid i chi fynd allan a gwneud y cysylltiadau, a'u perswadio pam mae hynny'n bwysig... sy'n haws nawr bod y rhaglen ar waith oherwydd maen nhw'n gallu gweld sut mae'n gweithio... ond os ydych chi'n dechrau o'r dechrau mae dipyn o waith darbwyllo i'w wneud, i ddechrau*." [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Yn sicr, mae pobl yn deall y rhaglen nawr. Yn ystod misoedd cyntaf Cyfuno, dw i ddim yn credu bod pobl o reidrwydd yn deall beth oedd y rhaglen…. Ond ar ôl iddi gael ei sefydlu, dw i'n credu bod pobl yn meddwl, "Iawn, dw i'n rhyw fath o ddeall beth yw e"... maen nhw'n gallu gweld tystiolaeth o brosiectau dw i'n eu gwneud*

*gyda phobl eraill. Ac maen nhw'n gallu dweud, “Iawn, dw i'n gweld beth yw e nawr.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.22 Yn unol â'r canfyddiad uchod, pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ynghylch a oeddent yn teimlo bod eu prif gorff yn mabwysiadu dulliau partneriaeth Cyfuno yn ei waith, roedd bron pob cydlynydd a ymatebodd i'r arolwg yn *cytuno'n gryf* (N = 4) neu'n *cytuno* (N = 4) â'r datganiad hwn. Gellir gweld canlyniadau'r arolwg ar gyfer y cwestiwn hwn yn siart 4.1.

**Siart 4. 1. Barn ar arweinyddiaeth Cyfuno – ymgorffori Cyfuno**




**Cyfanswm o ymatebion (9)**

**Cymhellion dros ymuno â rhwydweithiau partneriaeth lleol**

4.23 Yn ystod y cyfweliadau, rhannodd y cydlynwyr eu barn ynghylch pam mae sefydliadau'n ymuno â rhwydweithiau partneriaeth lleol. Roedd llawer o'r farn mai un o'r cymhellion i ymuno oedd y cyfleoedd yr oedd y rhwydwaith yn eu cynnig i aelodau greu cysylltiadau â sefydliadau o ystod o sectorau, a'r potensial i bartneriaid leihau'r straen ar eu sefydliad, drwy gyflwyno cyfleoedd i gyfuno sgiliau a gwybodaeth.

"*…mae'n gyfle mewn gwirionedd i rannu'r baich o ran adnoddau...i weithio ar y cyd ac i wneud cysylltiadau newydd*." [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.24 Disgrifiodd rhai o'r cydlynwyr a gyfwelwyd eu rhwydwaith fel cyfle i sefydliadau arddangos yr hyn yr oeddent yn ei wneud, a gweld pa brosiectau eraill a oedd yn cael eu datblygu yn eu hardal. Dywedodd nifer o gydlynwyr fod y rhwydweithiau'n cefnogi ei gilydd, gyda phartneriaid yn aml yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau ei gilydd, drwy'r cyfryngau cymdeithasol er enghraifft. Disgrifiwyd Cyfuno hefyd gan un cydlynydd fel *"rhwydwaith cymorth"* i unigolion neu sefydliadau a oedd ag arbenigedd mewn maes penodol (e.e. y celfyddydau), ond nad oeddent efallai wedi gweithio gyda rhai cymunedau (e.e. pobl ag awtistiaeth, y rhai nad oeddent yn rhan o'r farchnad lafur). Ar gyfer y cydlynydd hwn, roedd ei rwydwaith lleol yn helpu sefydliadau a chanddynt wahanol sgiliau i greu cysylltiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd, *"yn hytrach na cheisio dechrau o'r dechrau"*. O'r cychwyn cyntaf, roedd rhai cydlynwyr yn teimlo eu bod wedi cael mynediad at garfan o sefydliadau a oedd yn barod i gydweithio oherwydd eu bod eisoes yn cefnogi'r syniad o weithio ag eraill, gan ei gwneud hi'n haws iddynt sefydlu eu rhwydweithiau.

*"Pan ddechreuais ar y swydd… roedd yna gryn dipyn o rethreg ynghylch y ffaith bod angen i ni weithio mwy mewn partneriaeth. Rwy'n credu bod hwnnw mewn gwirionedd wedi bod yn llwyfan da i mi allu dweud, "Iawn, wel, os ydyn nhw am wneud hyn, dylen ni weithio gyda'n gilydd. Dewch i siarad â mi a gadewch i ni weld beth allwn ni ei wneud."* [Cydlynydd a gyfwelwyd].

*"... mae 'na fwrlwm gwirioneddol wych ar hyn o bryd... mae mwy a mwy o bobl yn awyddus i arddangos nid yn unig yr hyn maen nhw'n ei wneud ond y cyfleoedd eraill sydd ar gael yn y ddinas. Ac rwy'n credu bod y math hwnnw o gefnogaeth o fewn y rhwydwaith yn wych.*" [Cydlynydd a gyfwelwyd].

4.25 Pan ofynnwyd i sefydliadau partner a gyfwelwyd am eu cymhellion i ymuno â rhwydwaith, roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar y ddirnadaeth o werthoedd cyffredin rhwng nod trosfwaol Cyfuno o drechu tlodi ac anfantais drwy annog cyfranogiad diwylliannol, a nodau ac amcanion eu sefydliadau eu hunain. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd, er enghraifft, at *"ganlyniadau a nodau cyffredin"*, neu *"ethos"* gyffredin. Cyfeiriodd llawer at ffrydiau gwaith neu agendâu penodol (e.e. llesiant,

iechyd meddwl, lleoliadau gwaith) sy'n gyffredin i'r partneriaid a'r rhaglen Cyfuno fel ei gilydd:

*"…mae yna agendâu y mae angen i ni i gyd [weithio tuag atynt], ynglŷn â llesiant, ac yn enwedig iechyd meddwl. Mae hynny'n bwysig iawn i ni. Ac rwy'n siŵr bod gan [y cydlynydd] rai syniadau... mae'n nod cyffredin. Nod Cyfuno yw sicrhau'r llesiant hwn ac mae hynny'n nod i ninnau hefyd. "* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

4.26 Soniodd nifer o sefydliadau partner a gyfwelwyd hefyd am fanteision cydweithio i bawb sy'n cymryd rhan. Roedd hyn yn aml yn cael ei eirio yn nhermau cael rhywbeth yn ôl o'r rhwydwaith, megis mynediad at wahanol grwpiau o bobl neu gyfnewid gwybodaeth. Roedd pwyslais yma ar y rôl benodol yr oedd rhai a gyfwelwyd yn teimlo y gallai eu sefydliad ei chwarae o fewn rhwydwaith ehangach gan weithio tuag at yr un amcanion. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd yr adnoddau yr oedd gan eu sefydliad i'w cynnig, megis cyfleusterau neu arbenigedd, a sut y gallai sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth gyflawni mwy drwy weithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân. Yn ogystal â hyn, roedd y grŵp hwn yn teimlo bod gweithio mewn partneriaeth yn cefnogi nodau mwy uchelgeisiol.

*"…mae gennym rywbeth i'w gynnig i'r rhwydwaith ... mae gennym gronfa o gyfleusterau yma, mae gennym lawer o arbenigedd, a llawer i'w gynnig i bobl sy'n rhan o'r rhwydwaith. Ond yn yr un modd, mae ganddyn nhw lawer i'w gynnig i ni, ac mae wedi ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, er mwyn gallu gwneud profiadau hyd yn oed yn fwy gwerthfawr."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

*"… rydym yn wasanaeth eithaf llwyddiannus ... Ac rwy'n credu ein bod wedi llwyddo i gael y canlyniad gwych hwn drwy weithio gyda phartneriaid. Allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pen ein hunain... mae ein partneriaethau gwaith yn bwysig iawn."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]


4.27 Disgrifiodd un sefydliad partner a gyfwelwyd bwysigrwydd cymryd rhan mewn rhwydwaith lleol o safbwynt mwy strategol, gan gyfeirio at synergedd â *"gwerthoedd"* Cyfuno, yn rhannol o ran sut y byddai eu sefydliad yn *"rhoi gostyngiadau i bobl nad oes ganddyn nhw gymaint o arian efallai".* Roedd cynyddu nifer yr ymwelwyr ac, o ganlyniad, refeniw yn ysgogiad allweddol i'w cyfranogiad.

*"…yr hyn rydych chi'n ceisio'i wneud yw llenwi seddi. Ac ar ôl i bobl gael profiad o'r theatr, maen nhw'n fwy tebygol o ddod yn ôl."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

**Dealltwriaeth o rôl y Cydlynydd Cyfuno**

4.28 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn i gydlynwyr ynghylch a oeddent yn teimlo bod eu rôl yn amlwg iddynt. Roedd y mwyafrif llethol a ymatebodd naill ai'n *cytuno'n gryf* (N=5) neu'n *cytuno* (N=3); ond roedd un ymatebydd yn *niwtral* ei farn. Gellir gweld y canlyniadau i'r cwestiwn hwn yn Siart 4.2. isod:

**Siart 4. 2. Profiadau cydlynwyr – eglurder ynghylch y rôl**




**Cyfanswm o ymatebion (9)**

4.29 Gofynnwyd i'r ddau grŵp a gyfwelwyd ddisgrifio rôl y Cydlynydd Cyfuno a'i bwrpas. Yn gyffredinol, rhoddodd pawb a gyfwelwyd ddisgrifiad tebyg sy'n awgrymu bod cydlynwyr yn gweithredu mewn ffordd gymharol a chyson i raddau helaeth ar draws yr ardaloedd partneriaeth sy'n cymryd rhan, er gwaethaf y gwahanol gyd-destunau y mae cydlynwyr yn gweithredu o'u mewn. Fodd bynnag, amlygodd yr ymatebion i'r cyfweliad natur amrywiol y rôl, fel y manylir isod.

*Rôl broceriaeth*

4.30 Pwysleisiodd y ddau grŵp a gyfwelwyd rôl 'broceriaeth' y cydlynydd wrth ddatblygu a meithrin eu rhwydwaith Cyfuno lleol, drwy nodi a chreu cysylltiadau â darpar bartneriaid, a chyfeirio sefydliadau at y naill a'r llall. Ystyriwyd bod y cyfarfodydd rhwydweithio rheolaidd a hwylusir gan bob un o'r cydlynwyr yn eu priod ardaloedd partneriaeth yn allweddol i adeiladu cysylltiadau rhwng sefydliadau. Roedd rhai cydlynwyr o'r farn bod hwyluso'r cyfleoedd rhwydweithio hyn yn allweddol i annog partneriaid i gydweithio ar ddylunio a darparu gweithgareddau. Nododd ychydig o gydlynwyr eraill sut y bu iddynt, drwy'r rhwydwaith, ddod o hyd i sefydliadau i ddarparu gweithgareddau a grwpiau a allai fynychu gweithgareddau; disgrifiodd eraill sut yr aethant ati i nodi anghenion grwpiau drwy waith ymgysylltu â'r gymuned a throsglwyddo'r rhain yn ôl i'r rhwydwaith i weld a allai unrhyw sefydliadau ateb y galw a darparu gweithgareddau diwylliannol penodol.

*"Rwyf wedi ymwneud yn fwy â brocera perthnasoedd ac yna gadael i'r sefydliadau wneud y gweddill eu hunain... pe bai un ohonyn nhw'n dweud wrtha i, "Rwy'n gwneud y prosiect hwn," yna byddwn yn dweud, "O, ydych chi wedi siarad â hwn a'r llall?"* [Cydlynydd a gyfwelwyd].

*"Fi yw'r sianel os hoffech chi... byddaf yn mynd i gwrdd â grŵp o bobl ifanc ac yn dweud, "Beth mae gennych chi ddiddordeb ynddo? Beth yr hoffech i ni ei wneud nad ydym yn ei wneud yn barod?" Ac yna o ran y rhwydwaith, gallaf ddweud, "Iawn, wel, pwy rhyngom ni sy'n gallu darparu hynny?"* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*Rôl rheoli prosiect*

4.31 Disgrifiodd sawl Cydlynydd a gyfwelwyd ei rôl hefyd fel rôl rheolwr prosiect, o ran cynnal gwybodaeth strategol a manwl am gymunedau lleol a'r cynnig diwylliannol yn eu hardal i helpu i wireddu prosiectau. Disgrifiodd y cydlynwyr sut yr oeddent yn gweithio i nodi unrhyw fylchau neu gyfyngiadau yn y ddarpariaeth ddiwylliannol; ymgynghori ag aelodau o'u cymuned leol; datrys unrhyw faterion y deuir ar eu traws yn ystod prosiectau, weithiau gyda chymorth partneriaid; casglu gwybodaeth fonitro a gwerthuso gan bartneriaid Cyfuno; yn ogystal â nodi dyblygu wrth weithredu a darparu gweithgareddau. Cyfeiriodd un cydlynydd er enghraifft at sut yr oedd yn

mapio'r hyn oedd yn digwydd yn lleol, cyn gofyn iddo'i hun *"… gyda phwy rydyn ni'n ymgysylltu? Gyda phwy dydyn ni ddim yn ymgysylltu? Pa brosiectau sy'n digwydd? Ble mae'r bylchau? "* Roedd cydlynydd arall yn teimlo mai ei rôl oedd *"… weithiau dim ond gwybod beth sydd ar gael a beth sy'n digwydd yn y cymunedau"* [Cydlynydd a gyfwelwyd].


*Rôl gyfathrebu*

4.32 Awgrymodd cyfweliadau gyda'r ddau grŵp fod cyfathrebu yn un agwedd allweddol ar rôl y cydlynydd. Yn y cyfweliad, disgrifiodd y cydlynwyr sut roeddent yn cadw cysylltiad rheolaidd gyda phartneriaid ar sail un-i-un a thrwy'r rhwydwaith cyfan, drwy e-bost, dros y ffôn a thrwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb; a hefyd sut y gwnaethant godi ymwybyddiaeth o gynigion diwylliannol partneriaid lleol yn eu hardal leol. Byddai nifer o gydlynwyr yn hyrwyddo gweithgareddau yn eu hardal drwy'r cyfryngau cymdeithasol (e.e. twitter), a thrwy ddylunio a dosbarthu deunyddiau (e.e. taflenni, posteri). Roedd rhai cydlynwyr hefyd o'r farn bod eu rôl yn cynnwys ymgynghori'n uniongyrchol â grwpiau anodd eu cyrraedd, i gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, a gweithredu fel pwynt cyswllt a chefnogaeth i lawer o'r unigolion hyn. Roedd rhai cydlynwyr hefyd yn teimlo eu bod yn codi proffil Cyfuno yn fwy cyffredinol yn eu prif gorff darparu, drwy ymgysylltu â gwahanol adrannau mewnol. Rhoddodd un cydlynydd gryn bwyslais ar y swm sylweddol o waith sy'n gysylltiedig ag agwedd gyfathrebu'r rôl:

*"...Rwy'n ceisio cynnal perthnasoedd â 40 neu 50 o bartneriaid yn wythnosol...a hefyd ymgysylltu â'r cleientiaid neu'r cyfranogwyr... [Mae rôl y cydlynydd] yn golygu llawer o gyfathrebu mewn gwirionedd.*" [Cyfweliad â Chydlynydd]

4.33 Mae canlyniadau'r arolwg ar-lein, a ddangosir yn Siart 4.3, yn dangos bod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn *cytuno'n gryf* (N=15) neu'n *cytuno* (N=24) bod cydlynwyr yn hwyluso cyfathrebu cliriach ar draws eu rhwydweithiau lleol; dim ond un ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r datganiad.

**Siart 4. 3. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd - cyfathrebu**




**Cyfanswm o ymatebion (45)**

*Rôl darparu gweithgareddau*

4.34 Roedd pob un o'r Cydlynwyr yn aml yn amrywio rhwng rôl hwyluso a mwy o rôl darparu gweithgareddau. Roedd pob un ar brydiau wedi chwarae rhan fwy ymarferol wrth ddylunio a darparu gweithgareddau partneriaid, yn dibynnu ar: eu gallu; y gefnogaeth yr oeddent yn teimlo yr oedd ei hangen ar rai partneriaid; a chymhlethdod y prosiect neu ba mor ddatblygedig ydoedd. Penderfynwyd ar lefel eu cyfranogiad fesul prosiect, ar sail ystyriaeth o rai o'r ffactorau a restrir uchod neu bob un ohonynt, fel y dangosir gan y dyfyniad canlynol:

"*Mae'n amhosibl ymwneud yn helaeth â phopeth sy'n digwydd. Mae jest yn amhosibl... weithiau mae angen llai o sylw ar rai prosiectau, lle mae'r partneriaid yn cymryd y prif gyfrifoldeb am ei gyflawni... rwyf wedi ymwneud â phobl un ohonynt i amrywiol raddau, ond rhai yn fwy nag eraill, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen."*
[Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.35 Fodd bynnag, roedd un Cydlynydd yn teimlo ei fod yn arwain yn gyson ar gydlynu a darparu gweithgareddau, yn hytrach na hwyluso cyfleoedd rhwydweithio a chysylltu partneriaid â'i gilydd o fewn ei ardal leol. Disgrifiodd cydlynydd arall sut y byddai'n rhaid iddo chwarae rôl fwy ymarferol yn rheolaidd wrth ddarparu prosiectau gyda rhai partneriaid, a theimlai na fyddai llawer o weithgareddau'n digwydd heb fewnbwn uniongyrchol ganddo.

*"...mae'r partneriaethau'n dibynnu arnaf fi... dw i ddim wedi bod yn frocer yma. Dw i wedi bod yn ymwneud â'r ddarpariaeth uniongyrchol."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"...prin y byddai dim wedi digwydd pe bawn i heb gymryd rhan uniongyrchol ynddo."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

## Y ffordd y mae Grantiau Her Cyfuno wedi'u dylunio a'u darparu

4.36 Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi trosolwg o sut y mae partneriaethau'n cael eu gweithredu a'u rhedeg a'r broses o ddylunio a darparu gweithgareddau, gan ganolbwyntio ar y rôl y mae cydlynwyr yn ei chwarae yn hyn o beth. Mae'r canfyddiadau'n dwyn ynghyd fewnwelediad a ddeilliodd o farn cydlynwyr a sefydliadau partner, o'r cyfweliadau lled-strwythuredig yn ogystal â'r arolwg ar-lein. Cyflwynir y prif negeseuon a'r hyn a ddysgwyd yn nhermau:

- sefydlu partneriaethau;
- gweithio mewn partneriaeth
- dylunio a darparu gweithgareddau
- ystyriaeth i'r Gymraeg ar lefel partneriaethau lleol
- rôl y cydlynydd;
- cynaliadwyedd rhwydweithiau lleol.

**Sefydlu partneriaethau**

4.37 Archwiliodd y cyfweliadau â chydlynwyr a phartneriaid y dulliau o sefydlu partneriaethau cydweithredol. Bu nifer o ffactorau o gymorth i'r cydlynwyr i sefydlu eu partneriaeth. Roedd rhai cydlynwyr wedi gweithio ar Cyfuno yn eu hardal leol cyn

lansio Grantiau Her Cyfuno; ac roedd gan sawl un ddealltwriaeth uniongyrchol o anghenion a diddordebau grwpiau anodd eu cyrraedd (e.e. ceiswyr lloches, ffoaduriaid) a grwpiau o ddiddordeb (e.e. pobl hŷn, plant a phobl ifanc) drwy weithio ar brosiectau mewn rolau blaenorol. Roedd partneriaethau lleol hefyd yn parhau i ehangu, gyda phob un o'r cydlynwyr yn darparu enghreifftiau o bartneriaid diweddar a oedd wedi ymuno.

4.38 Daeth partneriaid yn rhan o'u rhwydwaith partneriaethau lleol mewn sawl ffordd. Nodwyd rhai fel partner neu sector strategol allweddol (e.e. amgueddfeydd, llyfrgelloedd) neu raglen waith (Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith) ar lefel y rhaglen Cyfuno. Cysylltodd y cydlynydd yn uniongyrchol ag eraill ar lefel ardal leol, naill ai gyda gwahoddiad uniongyrchol, yn sgil prosiectau eraill, neu o ganlyniad i gysylltiadau gwaith a oedd yn bodoli eisoes.

4.39 Hefyd, rhoddodd rhai cydlynwyr a gyfwelwyd enghreifftiau o bartneriaid a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen ar eu liwt eu hunain, neu a oedd wedi cael eu cyfeirio at y rhaglen drwy bartneriaid Cyfuno presennol. Roedd ambell gydlynydd hefyd wedi gweithio ar y cyd â'i rwydwaith i nodi bylchau yn yr aelodaeth, gan awgrymu elfen o gyd-guradu wrth ddatblygu partneriaethau lleol. I lawer, roedd cysylltiadau presennol eu prif gyrff darparu (e.e. drwy Cymunedau yn Gyntaf) wedi bod yn fan cychwyn iddynt ddatblygu aelodaeth eu partneriaeth ac ehangu arni. I gydlynwyr o fewn awdurdodau lleol, daeth manteision penodol yn sgil hyn, gan y gallent nodi a sefydlu cysylltiadau clos a chydgefnogol ag adrannau eraill yn aml.

**Gweithio mewn partneriaeth**

4.40 Pwysleisiodd partneriaid a chydlynwyr werth Grantiau Her Cyfuno wrth hwyluso dull mwy strategol a chydlynol i sefydliadau gysoni eu hamcanion tuag at helpu i drechu tlodi drwy ddiwylliant. At ei gilydd, roedd y cyfranogwyr ymchwil yn gwerthfawrogi ffocws y rhaglen ar ddull partneriaeth a'r ffaith ei bod yn annog cydweithio, a oedd wedi dod â sefydliadau ynghyd. Ar gyfer y cydlynwyr a gyfwelwyd, roedd cefnogaeth partneriaid a'u parodrwydd i gofleidio ethos y rhaglen wedi galluogi partneriaethau i greu mwy o gyfleoedd i grwpiau targed neu ddod â gwerth ychwanegol i brosiectau neu weithgareddau a oedd yn bodoli eisoes. Disgrifiodd rhai cydlynwyr sut yr oedd partneriaethau ardal leol wedi arwain at newidiadau


cadarnhaol yn y ffordd yr aeth sefydliadau ati i ddylunio a darparu gweithgareddau, o ran ymgorffori meddwl yn fwy cydgysylltiedig a rhannu dealltwriaeth ar draws y sefydliadau a'r sectorau a gynrychiolir yn eu partneriaeth.

*“Un o'r pethau sy'n gweithio'n dda yw parodrwydd pawb i gwrdd, i drafod ac i gydweithio ... maen nhw'n gweld bod Cyfuno wedi creu cyfle iddyn nhw wybod beth mae pawb yn ei wneud o fewn y sefydliadau, ac mae'n rhoi lle iddyn nhw wedyn i feddwl, "o wel, rydyn ni'n gwneud rhywbeth sy'n debyg iawn, beth am gydweithio”... maen nhw'n gefnogol iawn i'r cynllun yn yr ystyr ei fod wedi dod â nhw at ei gilydd.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*“Maen nhw'n frwd iawn dros geisio gwneud i bethau weithio er budd y rhaglen ac maen nhw'n dda iawn am wrando ... i weld sut maen nhw'n gallu gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol er mwyn gwneud rhywbeth sy'n fwy priodol i'r gynulleidfa darged hon.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]


4.41 Fel y dangosir yn Siart 4.4., roedd mwyafrif (80%; N=37) y partneriaid a ymatebodd i'r arolwg yn *cytuno'n gryf* (N=14) neu'n *cytuno* (N=23) bod eu sefydliad, o ganlyniad i Cyfuno, yn cydweithio'n fwy effeithiol â sefydliadau diwylliannol.

**Siart 4. 4. Newidiadau i’r ffordd y mae’r sefydliad yn meddwl ac yn gweithio - cydweithio**



Gofynnwyd i'r partneriaid hefyd yn yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod eu sefydliad, o ganlyniad i Cyfuno, wedi gweithio gyda sefydliadau nad oeddent wedi cydweithio â nhw o'r blaen.  Unwaith eto, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol ar y cyfan. Roedd wyth deg y cant (N=37) o'r ymatebwyr naill ai'n *cytuno'n gryf* (N=17) neu'n *cytuno* (N=20) â'r datganiad hwn. Dangosir y canlyniadau isod, yn Siart 4.5.


**Siart 4. 5. Newidiadau i ffordd y sefydliad o feddwl a gweithio – gweithio gyda sefydliadau newydd**




**Cyfanswm o ymatebion (44)**


4.42 Pan ofynnwyd iddynt yn benodol am themâu Cyfuno, roedd dros hanner y partneriaid a ymatebodd i'r arolwg partner (57%; N=26) yn *cytuno'n gryf* (N=4) neu'n *cytuno* (N=22) bod cydlynwyr yn hwyluso cysylltiadau cryfach rhwng partneriaid a rhaglenni blynyddoedd cynnar; ac roedd 60% (N=27) yn *cytuno'n gryf* (N=6) neu'n *cytuno* (N=21) bod cydlynwyr yn hwyluso cysylltiadau cryfach rhwng partneriaid a rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd. Fodd bynnag, roedd bron i ddwy ran o bump o'r ymatebwyr (N=18 ar gyfer y 'blynyddoedd cynnar' a'r 'rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd') i'r cwestiynau hyn yn *niwtral* eu barn. Dangosir y canfyddiadau yn Siartiau 4.6 a 4.7 yn y drefn honno.

**Siart 4. 6. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – cysylltiadau â rhaglgenni'r blynyddoedd cynnar**




Cyfanswm o ymatebion (46)

**Siart 4. 7. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y Cydlynydd – cysylltiadau gyda rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd**




Cyfanswm o ymatebion (45)

4.43 Un o'r manteision allweddol a amlygwyd gan lawer o gyfranogwyr yr ymchwil oedd sut roedd partneriaethau wedi dod â sefydliadau ynghyd. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn un o brif lwyddiannau'r Grantiau Her Cyfuno. Pan ofynnwyd iddynt rannu eu barn, canolbwyntiodd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg ar lwyddiannau'r rhaglen wrth greu cysylltiadau rhyng-sectoraidd (e.e. rhwng sefydliadau celfyddydol a threftadaeth a rhaglenni blynyddoedd cynnar (e.e. Dechrau'n Deg). Arweiniodd hyn at bartneriaid yn rhannu arfer gorau ac yn cyd-gyflawni prosiectau:

*'Creu partneriaethau a gweithio mewn partneriaeth. Rhannu gwaith a syniadau ac agwedd gynhwysol tuag at weithgareddau a digwyddiadau.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

*'Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i gydweithio ar draws sefydliadau a gwahanol ardaloedd daearyddol; mwy o gyfleoedd i gyd-gyflawni a datblygu prosiectau; a lledaenu arfer gorau i faes ehangach - mae hyn wedi bod yn arbennig o bwerus ac yn allweddol i lwyddiant y rhaglen. '* [Ymatebydd i'r arolwg]

4.44 Teimlai'r cydlynwyr mai un o fanteision allweddol cael partneriaeth amrywiol oedd gallu harneisio sgiliau a gwybodaeth amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Roedd y rhwydweithiau ardal leol wedi darparu fframwaith ar gyfer dod â gwahanol sefydliadau ynghyd. Roedd y cymysgedd o sefydliadau a sectorau mewn partneriaethau yn cael ei ystyried yn allweddol, oherwydd ei fod yn dwyn ynghyd ystod o brofiadau ac yn golygu y gallai'r rhai sy'n gallu dylunio a darparu gweithgareddau gwrdd â'r rhai a oedd â dealltwriaeth ddyfnach o anghenion grwpiau targed a sut i ymgysylltu â nhw. Yna byddai partneriaid yn adeiladu ar eu gwahanol setiau sgiliau, gan weithio gyda'i gilydd i gynllunio cyfleoedd i ddiwylliant chwarae mwy o rôl wrth drechu tlodi mewn cymunedau lleol. Roedd partneriaid yn hysbysu ei gilydd am eu rhaglenni gwaith, yn cyfuno adnoddau ac yn osgoi dyblygu lle bo hynny'n bosibl. Byddai partneriaid hefyd yn rhannu gwahoddiadau ar gyfer digwyddiadau arfaethedig, megis cyfleoedd hyfforddi a chyllido. Pwysleisiodd y cydlynwyr barodrwydd partneriaid i gydweithio a'u hawydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu hardaloedd ac i osgoi gweithio mewn seilos.

*“Rwy'n credu mai agwedd llawer o'r adrannau ac, fel y dywedais, partneriaid allanol hefyd, yw bod pobl wir eisiau gweithio yn unol â'u cryfderau a chefnogi ei gilydd, ac*

*maen nhw eisiau gwybod beth sy'n digwydd. Dyw pobl ddim eisiau bod yn gaeth i'w swyddfa heb wybod beth mae pobl eraill yn ei wneud..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Mae pawb yn barod i gydweithio... ac mae pawb yn gweithio tuag at yr un nod... mae fy swydd yn dod ychydig yn haws pan mae gennym bartneriaid sy'n barod ac yn awyddus i wneud pethau."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Mae gennych bobl o fewn y rhwydwaith sy'n darparu cyfleoedd, fel y sefydliadau celfyddydol, ond sydd hefyd angen manteisio ar y cyfleoedd hynny, fel y rhaglen cyflogadwyedd, Dechrau'n Deg a'r bobl sy'n cefnogi'r cymunedau hynny yr ydym ni eisiau eu targedu fwyaf. Mae'n bwysig cael y cymysgedd hwnnw."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.45 I un sefydliad partner a gyfwelwyd, roedd y rhaglen yn *"llawer gwell, llawer tecach… ac yn fwy agored"* ers iddi roi'r gorau i ganolbwyntio ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chael dealltwriaeth ehangach o ardaloedd difreintiedig a grwpiau difreintiedig, a ddiffinnir yn rhannol gan y prif gorff. Roeddent yn teimlo bod hyn yn gwneud Cyfuno yn fwy addasadwy ac wedi galluogi targedu adnoddau mewn ffordd decach: *"…yn lle bod fel Cymunedau yn Gyntaf ac yn benodol i un ardal, mae'n llawer mwy agored a hyblyg, oherwydd mae'r ardaloedd cyfagos yr un mor dlawd".*

4.46 Rhoddodd y cydlynwyr enghreifftiau penodol o bartneriaid yn cefnogi ei gilydd drwy: hyrwyddo cynigion ei gilydd; cynnig gwasanaethau neu leoliadau yn rhad ac am ddim; rhannu eu cyngor a'u gwybodaeth; a gweithio i wella neu newid eu cynigion sefydliadol eu hunain i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well ag amcanion Cyfuno. Priodolwyd hyn yn uniongyrchol i Grantiau Her Cyfuno.

*"…Dw i'n sicr yn credu bod ymdeimlad o weithio mewn partneriaeth na welais i mohono yn y ddinas ddwy flynedd yn ôl."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*Cyfarfodydd Rhwydweithio*

4.47 Roedd hwyluso cyfarfodydd rhwydweithio rheolaidd rhwng partneriaid ar lefel partneriaeth Cyfuno, gan gydlynwyr, yn rhan allweddol o rôl y cydlynydd ar draws pob un o'r ardaloedd partneriaeth lleol. Yn gyffredinol, roedd cydlynwyr a phartneriaid yn rhannu'r farn bod y cyfarfodydd strwythuredig hyn yn galluogi ystod eang ac amrywiol o sefydliadau i ddod at ei gilydd ac, er enghraifft, gyda'i gilydd yn

derbyn ac yn cyflwyno gwybodaeth ac yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a, lle bo hynny'n bosibl, mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ddiwylliannol. Cyfeiriwyd at gael fforwm lle y gallai pobl gwrdd ac ymgysylltu â'i gilydd wyneb yn wyneb a gwneud cysylltiadau a meithrin perthnasoedd fel budd allweddol ynddo'i hun. Roedd ychydig o gydlynwyr wedi cynnal cyfarfodydd ar themâu penodol neu wedi gwahodd prif siaradwyr, weithiau o sefydliadau y tu allan i'w partneriaeth, i drafod pynciau penodol ac yn teimlo bod hyn yn gweithio'n dda fel ffordd o rannu gwybodaeth a dysg ac ysgogi trafodaethau pellach ymhlith partneriaid.

*“Rwy'n cael llawer o adborth cadarnhaol iawn gan bawb, sy'n dweud pa mor ddefnyddiol yw darganfod pwy sy'n gwneud beth. Oherwydd i lawer o bobl, rwy'n credu eu bod yn edrych i'm cyfeiriad i i allu gwneud y gwaith rhwydweithio ar eu rhan oherwydd maen nhw'n eistedd yn eu swyddfa yn gwneud eu gwaith, ac yn aml iawn ac nid oes ganddyn nhw'r hyblygrwydd sydd gennyf fi i wneud hynny.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd].

*“Yn aml iawn bydd partneriaid yn dweud wrthyf, “Iesgob, pe bawn i heb fynd i'r cyfarfod hwnnw, fyddwn i ddim wedi cyfarfod...”. Fel grwpiau orielau celf, os na fydden nhw wedi dod i'r cyfarfod partneriaeth ehangach, fydden nhw ddim wedi sylweddoli'r hyn y gallen nhw ei gael gan Gyngor y Celfyddydau... mae [cyfarfod rhwydweithio] yn werth ei gynnal, dim ond o ran cael partneriaid i siarad â phartneriaid.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*“Mae gennym ddau neu dri o bobl eraill a fydd yn dod i mewn i siarad am bethau maen nhw wedi'u gwneud sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y tîm hwnnw. Felly rydych chi'n cael y sgwrs yn yr ystafell ynglŷn â pham mae'n llwyddiannus, beth sydd wedi'i wneud yn llwyddiannus, felly mae profiad o rannu bob amser, ac mae hynny'n parhau hefyd y tu allan i'r ystafell.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*‘Dod â phartneriaid ynghyd - mae'r cyfarfodydd rhwydwaith yn gyfleoedd gwych i ddechrau sgyrsiau newydd gyda phobl newydd (neu i roi wynebau i'r enwau rydych chi wedi bod yn cyfathrebu â nhw drwy e-bost yn barod).'* [Ymatebydd i'r arolwg, yn rhoi sylwadau ar lwyddiannau'r rhaglen]

4.48 Disgrifiodd y cydlynwyr a gyfwelwyd sut roedd y cyfarfodydd rhwydweithio rheolaidd hyn yn eu helpu i greu a chynnal cysylltiadau a pherthnasoedd gyda phartneriaid a

rhyngddynt, ynghyd â'u galluogi i hwyluso trafodaethau grŵp gyda'r nod o gynhyrchu syniadau a phrosiectau newydd ar y cyd sy'n briodol i'r cyd-destunau yr oeddent yn gweithredu ynddynt. Heb rywun â'r cylch gwaith penodol i reoli'r cyfarfodydd hyn, roeddent yn teimlo y gallent golli momentwm ac y byddent yn debygol o ddod i ben yn gyfan gwbl, gan fod gan bartneriaid gyfrifoldebau eraill a blaenoriaethau a oedd yn cystadlu â'i gilydd a oedd yn eu hatal rhag arwain ar y gwaith hwn.

*"Mae angen rhywun i'w gydlynu... Yn amlwg, gallech ddweud wrth bawb, "Iawn, dyma gyfeiriadau e-bost pawb. Ebostiwch eich." Ond nid yw hynny wir yn teimlo fel rhywbeth sy'n cael ei werthfawrogi a'i feithrin... mae angen rhywun wrth y llyw..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

**Dylunio a darparu gweithgareddau**

*Ymgysylltu â grwpiau targed*

4.49 Roedd cydlynwyr yn gweithio gydag ystod eang o grwpiau ar draws pob un o'u hardaloedd partneriaeth (e.e. pobl sy'n byw gyda dementia, rhwydweithiau rhieni, disgyblion ysgol a myfyrwyr choleg, aelodau o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, cyn-filwyr lleol). Nododd y cydlynwyr hefyd grwpiau yr oeddent am weithio â nhw neu wneud mwy o waith gyda nhw (e.e. y gymuned LGBTQ+; dioddefwyr cam-drin domestig; ceiswyr lloches; gofalwyr ifanc; plant sy'n derbyn gofal; teithwyr; pobl ddigartref; pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs)). Cyfeiriodd pob Cydlynydd at enghreifftiau o weithio i fynd i'r afael â'r bylchau yr oeddent wedi'u nodi yn y ddarpariaeth, rhai mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill neu grwpiau targed; ond pwysleisiodd y mwyafrif yr heriau penodol yr oeddent wedi'u hwynebu wrth geisio ymgysylltu ag unigolion a chanddynt anghenion amrywiol a chymhleth, fel y dangosir yn y dyfyniad canlynol:

*"Es i i gael sgwrs gyda nhw a dweud, "Reit, ferched, beth mae gennych chi ddiddordeb ynddo?" A "Beth allen ni ei wneud i'ch helpu chi? Oes 'na unrhyw beth y gallaf ei wneud i'ch cefnogi chi?" Ac mae un o'r merched ifanc yn bwriadu dilyn cwrs celf a dylunio yn y coleg ym mis Medi. A dywedais wrthi, "Wel, beth am wneud ychydig o brofiad gwaith, gwirfoddoli yn yr [oriel gelf]?" Felly yr wythnos diwethaf fe wnaethon ni drefnu i mi a hithau a'i gweithiwr cymorth fynd i'r [oriel gelf]. Fe gawson*

*ni daith anffurfiol iawn o amgylch y lle, cael ychydig o hwyl a gwneud iddi ymlacio fel y gall wedyn fynd yno i wneud dipyn o waith gwirfoddol gobeithio. Ond mae dipyn mwy iddo na dim ond dweud , "Dyna ti. Dyma gyfle."... dyma'r bobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, pobl nad ydyn nhw erioed wedi cael gwaith o bosibl ac sy'n nerfus iawn ac yn eithaf dihyder. Felly mae'n cymryd mwy o amser, ac ychydig mwy o ymdrech, ond mae'n bendant yn werth chweil."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]


4.50 Un o'r manteision allweddol a amlygwyd gan gydlynwyr a phartneriaid yn yr ymchwil oedd sut roedd cydlynwyr yn dod ag adnoddau a syniadau sefydliadau ynghyd mewn ffordd fwy cydlynol a strwythuredig, er mwyn targedu cymunedau ac unigolion yn fwy effeithiol. Roedd partneriaid yn gwerthfawrogi'r ystod ehangach o sefydliadau y buont yn gweithio gyda nhw o ganlyniad i'r rhwydweithiau cydgysylltiedig. Roedd tystiolaeth bod hyn wedi arwain at gyflawni gweithgareddau newydd neu ymgysylltiad cynyddol mewn gweithgareddau presennol gan grwpiau targed.

*'Rwy'n credu ei fod yn ffordd wych o gysylltu gwahanol sefydliadau celfyddydol â'i gilydd, mae'n caniatáu inni gydlynu a gweithredu fel canolbwynt. Er mai dim ond newydd ymuno ydyn ni, mae [y rhwydwaith] wedi caniatáu inni recriwtio rhai myfyrwyr o feysydd yr oeddem yn cael trafferth eu cyrraedd. Gwnaed hyn drwy sefydliadau'n ein hargymell i'w cyfranogwyr.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

*'Creu rhwydwaith i grwpiau diwylliannol a chymunedol weithio gyda'i gilydd. Casglu data a dadansoddi'r cymunedau sy'n cael eu gwasanaethau ac nad ydynt yn cael eu gwasanaethu. Helpu i ddylunio gwaith newydd a gosod targedau newydd. Cefnogi partneriaethau. Hyrwyddo gwaith a rhannu gwybodaeth. Chwalu'r rhwystrau i gynhwysiant.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

4.51 Gofynnwyd i'r partneriaid a ymatebodd i'r arolwg i ba raddau yr oedd cydlynwyr yn galluogi eu sefydliad i dargedu gweithgareddau yn fwy effeithiol at grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Roedd bron i dri chwarter (N=34) yr ymatebwyr yn *cytuno'n gryf* (N=13) neu'n *cytuno* (N=21) bod cydlynwyr yn caniatáu i'w sefydliad dargedu gweithgareddau'n well, roedd pymtheg y cant (N=7) yn *niwtral* eu barn, ac un ar ddeg y cant (N=6) yn *anghytuno* (N=3) neu'n *anghytuno'n gryf* (N=3) â'r datganiad. Dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn yn Siart 4.8.

**Siart 4. 8 Barn ar rôl Cydlynwyr Cyfuno – targedu gweithgareddau**




**Cyfanswm o ymatebion (46)**

4.52 Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg, fodd bynnag, ei fod yn teimlo y byddent yn cyflwyno gweithgareddau mewn rhai grwpiau anodd eu cyrraedd beth bynnag, p'un a fyddai'r Grantiau Her Cyfuno a rôl y cydlynydd ar gael ai peidio.

*'... Rydym wedi gallu parhau i gyflawni ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tlodi ac wedi cyflwyno amryw o gyfleoedd diwylliannol ond nid oedd hyn oherwydd y prosiect Cyfuno.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

*Cylch gwaith daearyddol*

4.53 Gan gyfeirio at eu hardal leol, roedd un neu ddau o'r cydlynwyr a gyfwelwyd yn teimlo bod Grantiau Her Cyfuno yn canolbwyntio'n ormodol ar yr hen glystyrau Cymunedau yn Gyntaf (gweler Adran Dau) ar draul cymunedau a nodwyd fel ardaloedd o amddifadedd gwledig a'r unigolion sy'n byw yno, sydd *"…efallai'n teimlo nad ydyn nhw'n cael cymaint ag eraill"*. Yn eu barn n
cymunedau oherwydd bod ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu blaenoriaethu ac yn parhau i gael eu blaenoriaethu, ac roedd y ffaith bod eu partneriaeth yn cwmpasu ardal fawr yn gwaethygu'r sefyllfa. Er gwaethaf yr ardal

ddaearyddol fawr yr oeddent yn ei chwmpasu, roedd cyfleoedd diwylliannol yn tueddu i gael eu targedu at unigolion a oedd wedi'u lleoli yn yr hen glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Disgrifiodd un partner hefyd rywfaint o ddryswch yn ei rwydwaith ynghylch pa ardaloedd a grwpiau o unigolion yn yr ardaloedd hyn allai gymryd rhan mewn gweithgareddau:

*"…does 'na neb yn siŵr iawn ynglŷn â ffiniau Fusion, fel pa mor bell dan i'n cael mynd hefo'r ardaloedd 'ma. Mae hanner y bobl yn meddwl bod o'n [ardal awdurdod lleol] i gyd, ac wedyn mae 'na hanner arall yn meddwl na mae o'n pocedi o fewn… pam oedden ni mewn cyfarfod yn trafod yr ysgolion oedd gallu cymryd rhan… roedd yna ychydig o drafodaeth – 'a yw ysgolion y tu allan i'r pocedi yn cael cymryd rhan?' Ac wedyn roedd rhai yn dweud, 'Wel, dwi ' n cymryd bod pawb yn [yr awdurdod lleol] yn cael cymryd rhan'… "* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

**Ystyriaeth i'r Gymraeg ar lefel partneriaeth leol**

4.54 Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i gydlynwyr hefyd roi sylwadau ar sut yr ystyriwyd y Gymraeg yn eu hardal bartneriaeth, o ran cyfathrebu â phartneriaid lleol a rhyngddynt, ac wrth ddylunio a darparu gweithgareddau.

4.55 Cyfeiriodd y rhan fwyaf o gydlynwyr o fewn awdurdodau lleol at eu hymrwymiad i gadw at safonau'r Gymraeg, ac o ganlyniad roedd eu holl ddeunyddiau cyhoeddus (megis posteri, postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol) neu gyfathrebu torfol (e-byst) yn ddwyieithog. Dim ond un cydlynydd a ddywedodd fod y rhan fwyaf o'r cyfathrebu allanol yn tueddu i fod yn Saesneg, ond bod *'opsiwn ar gyfer deunyddiau dwyieithog'*. O ran cyfathrebu un-i-un â phartneriaid, disgrifiodd y cydlynwyr sut yr oedd hyn yn dibynnu ar ddewis iaith y sawl yr oeddent yn cyfathrebu ag ef. Nododd sawl cydlynydd sut yr oedd partneriaid yn eu hardal bartneriaeth leol, ar gais, wedi dewis darparu deunyddiau cyfathrebu yn Saesneg, tra bod un yn cydnabod y gallai hyn fod yn *'achos o beidio â siarad â'r bobl iawn'*. O ran y cyfathrebu gan sefydliadau partner, dywedodd rhai cydlynwyr nad oedd gan sefydliadau llai yr adnoddau neu'r un gofynion o ran y Gymraeg â'u prif gorff darparu o reidrwydd, a bod eu cyfathrebu yn tueddu i fod yn Saesneg yn unig.

4.56 Cyfeiriodd yr holl gydlynwyr hefyd at weithgareddau yn eu hardaloedd a gafodd eu cynllunio a'u cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardaloedd (e.e. corau,

grwpiau chwarae, gweithdai ysgol), er bod y rhain yn llawer mwy cyffredin mewn rhai ardaloedd nag eraill. Er enghraifft, dywedodd un cydlynydd fod mwyafrif y bobl yn ei ardal yn siarad Cymraeg, a bod bron yr holl gyfathrebu a gweithgaredd yn ei ardal yn cael eu darparu yn Gymraeg. Dywedodd cydlynydd arall fod bwlch posibl yn ei ardal o ran gweithgareddau Cyfuno cyfrwng Cymraeg, yn rhannol oherwydd y gred bod diffyg galw am hyn yn yr ardal. Nododd y cydlynydd hwn, ynghyd ag un arall, nad oedd y cymunedau yr oedd yn gweithio â nhw yn rhai Cymraeg iaith gyntaf nac ail iaith, a chyfeiriodd un, er enghraifft, at y llu o ieithoedd eraill a ddefnyddir yn ei ardal; "*felly mae'n debyg, os yw pobl yn edrych ar gyfieithu, ni fyddent o reidrwydd yn edrych ar ei gyfieithu i'r Gymraeg oherwydd byddai iaith arall yn fwy buddiol.*"

**Rôl y Cydlynydd**

4.57 Mae Grantiau Her Cyfuno wedi ariannu swydd cydlynwyr mewn ardaloedd partneriaeth sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a nod yr adolygiad hwn oedd ymchwilio i farn ynghylch effeithiolrwydd y rôl ac i ba raddau y mae'n helpu i gyflawni amcanion Cyfuno ar lefel ardal leol. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau hyn.

*Goruchwyliaeth strategol*

4.58 Roedd cydlynwyr a phartneriaid fel ei gilydd yn gwerthfawrogi'r rôl fel adnodd ar gyfer hwyluso goruchwyliaeth gyfannol o ardaloedd partneriaeth lleol; o ran ymwneud â nodi partneriaid, symleiddio adnoddau a lleihau dyblygu, a chefnogi partneriaid i weithio mewn ffordd fwy effeithlon a chydlynol. Gwerthfawrogwyd goruchwyliaeth strategol ar bartneriaethau gan gydlynwyr yn arbennig a phwysleisiwyd hynny'n barhaus fel allwedd i hwyluso rhwydweithiau ardal leol yn llwyddiannus. Cyfeiriodd sawl cyfranogwr ymchwil at bwysigrwydd cael unigolyn penodol fel y pwynt cyswllt canolog gyda dealltwriaeth gyffredinol o'r cyd-destun diwylliannol lleol a threchu tlodi. Cyfeiriodd rhai cydlynwyr a phartneriaid yn benodol at yr angen i gael unigolyn â chyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu a sicrhau ansawdd y data monitro ac adrodd a gyflwynir gan bartneriaid, a mapio a nodi unrhyw fylchau a chyfleoedd o ran y gweithgareddau a ddarperir.

*"...gyda rhywun yn rôl y cydlynydd, mae'n amlwg yn ei gwneud yn llawer haws, dim ond oherwydd mai'r person hwnnw yw'r pwynt cyswllt drwy'r amser... A nhw yw'r*

*rhai sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal ac yn edrych ar y sefyllfa'n gyfannol..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"... cael rhywun i gasglu'r holl ddata gan bawb a dweud, "Reit, gyda phwy rydyn ni'n gweithio? Gyda phwy rydyn ni wedi bod yn gweithio? " Fel dinas, yn hytrach nag fel lleoliad. Felly rydyn ni'n cael darlun gwell... gyda phwy y gallem weithio nad ydym yn gweithio â nhw ar hyn o bryd? Beth gallem ei wneud i ddarparu gweithgaredd dysgu achrededig i'r rhai sy'n ymgysylltu? Sut mae cynyddu dysgu digidol? Felly mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn... A hefyd edrych ar bwy sy'n ymgysylltu â meysydd penodol."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.59 Fodd bynnag, roedd un ymatebydd i'r arolwg yn aneglur ynghylch gwerth rôl y cydlynydd y tu hwnt i drosglwyddo gwybodaeth am hyfforddiant a chyfleoedd grant i'w bartneriaeth.

*Cydlynwyr yn cynnig cymorth*

4.60 Roedd cymryd rhan yn y rhaglen Grantiau Her Cyfuno wedi cefnogi gwell dealltwriaeth o'r cymorth sydd ar gael i bartneriaid. Disgrifiodd rhai partneriaid sut yr oedd cydlynwyr wedi eu cyfeirio at gyfleoedd hyfforddi ac ariannu. Darparwyd enghreifftiau hefyd o gymorth un-i-un mwy manwl neu gymorth wedi'i deilwra rhwng cydlynwyr a sefydliadau, gyda chydlynwyr yn darparu cyngor a chefnogaeth ar, er enghraifft: ceisiadau grant; sefydlu gweithgareddau newydd; gweithio gyda grwpiau newydd; a sefydlu rhaglenni gwaith yn seiliedig ar themâu Cyfuno (e.e. gwirfoddoli).

*"… Roeddent yn mynd yn nerfus braidd oherwydd nad oedd ganddyn nhw'r arian i gynnal unrhyw beth eu hunain ac nid oedd ganddyn nhw'r hyder i drefnu rhywbeth eu hunain. Ond cyn gynted ag yr es i yno a dweud, "Beth am ei wneud fel hyn?" dywedon nhw "ie" ar unwaith, a nawr mae'n digwydd."* [Cydlynydd a gyfwelwyd].

4.61 Ymchwiliodd yr adolygiad hwn hefyd i'r mathau o gymorth a ddarparwyd gan gydlynwyr. Cyfeiriodd yr ymatebion at nifer o feysydd lle y gwerthfawrogwyd y cymorth a ddarparwyd gan gydlynwyr yn arbennig gan rai partneriaid, sef: darparu hyfforddiant neu gyfeirio pobl at hyfforddiant; a chymorth i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i unigolion. Trafodir pob un o'r meysydd hyn ar wahân isod.


- *Hyfforddiant*

4.62 Wrth wneud sylwadau ar eu profiad o weithio gyda'u cydlynydd lleol, cyfeiriodd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-lein at Gydlynwyr yn cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn eu rhwydwaith leol. Yn yr un modd, pan roddwyd cyfle i ymatebwyr i'r arolwg wneud sylwadau agored ar lwyddiannau allweddol y rhaglen Cyfuno, cyfeiriwyd at lwyddiant y rhaglen o ran tynnu sylw at gyfleoedd hyfforddi ymhlith rhwydweithiau partneriaid Cyfuno, gydag un ymatebydd yn rhoi sylwadau penodol am 'sgiliau' y Cydlynydd o ran nodi cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y rhwydwaith.

*'Mae'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu wedi bod yn wych a fyddai hynny ddim wedi bod yn bosibl heb y rhaglen hon'* [Ymatebydd i'r arolwg]

4.63 Mae Siart 4.9, isod, hefyd yn dangos consensws cryf ymhlith sefydliadau partner a ymatebodd i'r arolwg bod Cydlynwyr yn eu galluogi i gael mwy o fynediad at gyfleoedd hyfforddi, gyda bron i dri chwarter y rhanddeiliaid o sefydliadau partner (N=33), naill ai'n *cytuno'n gryf* (N=11) neu'n *cytuno* (N=22) â'r datganiad.

**Siart 4. 9. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – mynediad at hyfforddiant**




**Cyfanswm o ymatebion (46)**

4.64 Unwaith eto, wrth drafod llwyddiannau eu hardal bartneriaeth leol, disgrifiodd un partner a gyfwelwyd y cyfleoedd hyfforddi yr oedd wedi manteisio arnynt o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgor:

*"… mae hyfforddiant ar gael sy'n gysylltiedig â'r [rhaglen dysgu fel teulu]. Mae hyfforddiant i'r partneriaid, hyfforddiant i athrawon er mwyn iddynt allu bod yn asiantau yn eu hysgolion. Ac yna mae cyfarfodydd cynllunio ar gyfer gweithgareddau, cyfarfodydd lle mae'r partneriaid yn cyflwyno eu syniadau am weithgareddau i'r ysgolion neu i'r penaethiaid neu gynrychiolwyr yr ysgol. Ac yna mae cyfarfodydd data yn nes ymlaen yn y flwyddyn."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

- *Gwirfoddoli*

4.65 Roedd nifer o Gydlynwyr a gyfwelwyd hefyd yn priodoli'r cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn eu hardal bartneriaeth neu welliannau yng nghapasiti a hyder partner i fynd ar drywydd gwirfoddoli, i'w cefnogaeth yn y maes hwn, o ran cynnig hyfforddiant neu adnabod a recriwtio gwirfoddolwyr eu hunain.

*"Rydym wedi cynnal hyfforddiant gyda sefydliadau nad ydyn nhw wedi cael gwirfoddolwyr o'r blaen er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw afael dda ar sut i fwrw ymlaen â hynny yn eu sefydliadau eu hunain heb orfod neidio i mewn i bethau yn ddi-glem...felly mae helpu'r sefydliad i wthio hynny yn ei flaen wedi bod yn rhywbeth positif iawn, iawn".* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

- *Achredu*

4.66 Yn ogystal, wrth drafod llwyddiannau'r rhaglen, soniodd nifer o'r Cydlynwyr a gyfwelwyd eu bod wedi gweld mwy o gyfleoedd achredu yn cael eu cynnig gan eu rhwydwaith, neu newid mewn agweddau tuag at gynnig achrediad ymhlith partneriaid Cyfuno. Soniodd nifer o Gydlynwyr am Cyfuno, neu eu rôl yn benodol, wrth iddynt helpu i wthio'r newidiadau hyn yn eu blaenau.

*"Mae pawb arall yn cyflawni pethau gwych ond dydyn nhw ddim yn achredu dim ohono...Felly mae hynny'n rhywbeth dw i wedi bod yn gweithio arno, i'w newid...fe*

*wnes i gynnwys Addysg Oedolion Cymru fel partner newydd, ac maen nhw wedi bod yn wych. Felly maen nhw'n talu am ein holl achrediadau wrth symud ymlaen. Yn amlwg, mae'n rhaid inni dalu am y tiwtor, ond yna maen nhw'n talu'r costau gweinyddol a'r costau achredu. Felly mae hynny'n gadarnhaol iawn".* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Rwy'n credu bod rhai o'r llwyddiannau allweddol wedi bod yn gysylltiedig â Gwobrau'r Celfyddydau mewn gwirionedd, gan integreiddio hynny i'r prosiectau Hyrwyddwyr Ifanc ar gyfer rhan o'r Cynllun Noson Allan...rwy'n credu ein bod ni wedi gwneud 103 o'r Gwobrau Celfyddydau 'leni, sy'n swm enfawr, llawer mwy nag yr oeddwn i'n meddwl y bydden ni'n ei wneud...Ac mae llwyth o sefydliadau wedi cymryd hynny ymlaen fel ffordd gadarnhaol iawn i ddatblygu sgiliau'r bobl ifanc mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, ac achrediad amgen hyfryd iddyn nhw hefyd. Felly mae hynny wedi bod yn fuddiol iawn, iawn."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Mae 33 o bobl wedi gwneud Agored. Dim ond dau ohonyn nhw fyddai wedi digwydd heb Cyfuno."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

- *Cyllid*

4.67 Tynnodd y cyfweliadau â Chydlynwyr sylw hefyd at y cymorth y maent yn ei chynnig i bartneriaid er mwyn dod yn ymwybodol o gyfleoedd cyllido, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid ar geisiadau cyllido mewn sawl achos, gyda sawl un yn cyfeirio at geisiadau cyllido llwyddiannus yr oeddent wedi ymwneud â hwy.

*"Pan fydda i'n mynd i ysgolion, rwy'n eu gwneud yn ymwybodol o'r cyllid y gallent wneud cais amdano gan Gyngor y Celfyddydau, nad yw llawer o ysgolion yn gwybod amdano. Ac os yw'n sefydliadau eraill, eu gwneud yn ymwybodol o gyllid Cronfa Treftadaeth y Loteri a chyllid Cyngor y Celfyddydau y gallant wneud cais amdano i gyflawni eu nodau."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Rydyn ni wedi helpu cryn dipyn o wahanol sefydliadau i sicrhau cyllid ychwanegol, felly gyda [sefydliad y Celfyddydau] a'u [gweithgaredd Cyfuno], cawsant gyllid mewn nwyddau gan y Cyngor, ond cawsant gyllid gan [raglen addysgol], a chyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a Chyngor y Celfyddydau."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.68 Ategwyd y canfyddiad hwn gan rai o'r partneriaid a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, a soniodd yn benodol am gefnogaeth y Cydlynwyr o ran eu cyfeirio at gyfleoedd cyllido.

*'Fel grŵp cymunedol, rydym wedi gweithio gyda dau gydlynydd Cyfuno ac wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y 3-4 blynedd diwethaf. Mae pob un wedi bod yn hynod gefnogol o ran ein cyfeirio at gyfleoedd cyllido a'n cyflwyno i bobl mewn sefydliadau eraill a allai gynnig cefnogaeth i'r ddwy ochr. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu cynnig ystod o ddigwyddiadau cyffrous yn ein hardal leol... ni fyddem wedi gallu gwneud hyn yn hawdd heb gymorth, arweiniad a chefnogaeth y cydlynydd Cyfuno'* [Ymatebydd i'r arolwg]

4.69 Cydnabu un Cydlynydd fod cais llwyddiannus am grant yn aml yn gofyn am wybodaeth arbenigol am rai ymadroddion allweddol, neu flaenoriaethau newidiol sector y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth; rhywbeth nad yw llawer o sefydliadau partner yn gyfarwydd ag ef, yn enwedig sefydliadau elusennol llai sydd yn aml yn dibynnu ar gyllid allanol. Aeth y Cydlynydd hwn ymlaen i bwysleisio gwerth cael rhywun ag arbenigedd wrth wneud cais am arian i gefnogi sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol:

*"Rwy'n credu mai dim ond rôl sydd ei hangen arnom. P'un a yw hynny yn y rhwydwaith Cyfuno neu o fewn cylch gwaith ehangach cymunedau. Mae angen rhywun i helpu gyda chyllid."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.70 Gwelwyd tystiolaeth o gyfranogiad partneriaid yn y rhaglen Cyfuno mewn cynigion am arian grant, a oedd wedi cynnwys llythyrau cefnogaeth gan eu cydlynydd ardal leol.

**Cynaliadwyedd rhwydweithiau ardaloedd lleol**

4.71 Edrychodd yr ymchwil hefyd ar farn rhanddeiliaid ar gynaliadwyedd rhwydweithiau ardaloedd lleol ac i ba raddau yr oeddent yn priodoli unrhyw newidiadau i ffyrdd o weithio'r sefydliadau cyfranogol i'r rhaglen Cyfuno. Cyflwynodd yr ymchwil dystiolaeth addawol o ymgysylltiad parhaus sefydliadau partner Cyfuno a thwf rhwydweithiau partneriaeth Cyfuno lleol. Fodd bynnag, pan gawsant y cyfle i wneud sylwadau ar gynaliadwyedd eu partneriaethau Cyfuno lleol, mae'n bwysig nodi bod

y Cydlynwyr a'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd wedi mynegi'n gyson, ac yn ddigymell, eu bod yn teimlo na fyddai eu rhwydwaith lleol yn gynaliadwy heb gydlynu neu hwyluso.

*“Mae angen rhywun sy'n gatalydd, a dweud y gwir. Wn i ddim a allai hynny weithio drwy'r partneriaid, ond yr hyn sy'n digwydd fel rheol yw bod pethau'n mynd yn fflat, a hyd yn oed os ydych chi'n dweud, “iawn, fy nhro i yw trefnu'r tro hwn”, dyw e ddim yn mynd i weithio, mae angen rhywun sydd â'r momentwm i gadw pethau i fynd.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.72 Wrth drafod cynaliadwyedd gweithgareddau Cyfuno lleol, cyfeiriodd y Cydlynwyr a gyfwelwyd unwaith eto at werth cael rhywun mewn rôl Gydlynu, o ran cefnogi partneriaid i ganolbwyntio ac alinio eu hadnoddau o fewn cylch gwaith nodau'r rhaglen Cyfuno, a herio partneriaid i weithio mewn ffyrdd newydd a thargedu eu gweithgareddau yn fwy effeithiol.

*“O ran y rhwydwaith, os yw'n gynaliadwy, rwy'n credu y byddech chi'n colli rhai, a chredaf y byddai prosiectau hyd yn oed yn arafu ac yn y pen draw dim ond pocedi bach o bobl fyddai'n gweithio gyda'i gilydd, a byddai hynny'n gynaliadwy. Ond o ran gwaith ehangach, mwy heriol, dwi ddim yn credu y byddai hynny'n digwydd heb ymyrraeth cydlynydd Cyfuno.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

## Heriau a meysydd i'w gwella

4.73 Nododd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil nifer o heriau o ran eu rhwydweithiau partneriaeth ardaloedd lleol ac awgrymu gwelliannau. Roedd pob un o'r rhai a gyfwelwyd eisiau i'w rhwydwaith a'u prif gorff darparu neu sefydliadau barhau i gymryd rhan yn Cyfuno. Nododd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd broblemau gan awgrymu gwelliannau neu newidiadau i'r rhaglen, fel y nodir isod.

**Cyfathrebu**

4.74 Codwyd ffactorau'n ymwneud â chyfathrebu yn gyson fel maes i'w wella gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil, yn y cyfweliadau ac yn yr arolwg ar-lein. Roedd mwyafrif yr ymatebion gan bartneriaid a gyfwelwyd yn canolbwyntio ar yr angen am ryngweithio cyson rhwng y cydlynydd a phartneriaid, a negeseuon clir gan y rhaglen Cyfuno, er mwyn parhau i wella partneriaethau ar lefel ardal leol. Tynnodd y

cydlynwyr sylw hefyd at rai materion yn ymwneud â chyfathrebu yr oeddent yn teimlo y gellid mynd i'r afael â hwy: o'r brig i lawr, ar lefel y rhaglen Cyfuno; yn fewnol, o fewn prif gyrff darparu; ar draws rhwydweithiau partneriaeth ardaloedd lleol unigol; a rhwng cydlynwyr. Nodwyd materion eraill yn ymwneud â chodi proffil Cyfuno, drwy wella sut y cyhoeddwyd negeseuon ac effeithiau allweddol; yn rhannol drwy ddatblygu brandio a marchnata'r rhaglen, a thargedu gweithgareddau'n fwy effeithiol at unigolion a grwpiau mewn ardal leol drwy hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn fwy effeithiol mewn cymunedau.

*Cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a chydlynwyr*

4.75 Teimlai rhai cydlynwyr y gallai'r wybodaeth am Cyfuno ar lefel rhaglen o'r brig i lawr fod yn gliriach ac y gallai ddigwydd yn fwy rheolaidd. Disgrifiodd un cydlynydd ddiffyg eglurder gan MALD ynghylch eu cylch gwaith; a galwodd sawl un am negeseuon mwy cryno ynghylch nodau'r rhaglen. Er bod un cydlynydd wedi disgrifio nodau Cyfuno fel rhai *"aruchel"*, roedd eraill yn canolbwyntio ar sut roedd ei diffiniad eang o ddiwylliant, diffyg eglurder cysyniadol ynghylch trechu tlodi, ac ehangder y gweithgareddau y gellid eu cyflawni o dan ei baner, yn ei gwneud hi'n anodd crynhoi beth oedd pwrpas y rhaglen i bartneriaid. Roedd cydlynwyr yn aml yn ei chael hi'n heriol dadansoddi'r amcanion ar lefel rhaglen. O ganlyniad, gallai fod yn anodd disgrifio perthnasedd Cyfuno mewn ffyrdd pendant a diriaethol i ddarpar bartneriaid ar lefel ardal leol. Arweiniodd hyn weithiau at gydlynwyr yn disgrifio'r rhaglen yn eu geiriau eu hunain a oedd yn cyflwyno'r perygl o grwydro oddi wrth y neges. Disgrifiodd un cydlynydd hefyd sefyllfa lle roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eglurder ynghylch y rhaglen gan eu rhwydwaith lleol o bartneriaid Cyfuno, yn hytrach nag ar lefel y rhaglen Cyfuno:

*"...Dysgais lawer gan y partneriaid...fe wnaethant egluro llawer am yr hyn y mae'n rhaid i Cyfuno fod, ac roedd yn teimlo ychydig yn rhyfedd oherwydd roeddwn i yno yn cynrychioli Cyfuno, ond roedd yn teimlo fel mai nhw oedd yn fy nysgu fi braidd yn y cyfarfodydd."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

"*Mae hi bob amser yn braf gwybod beth yw meddylfryd Llywodraeth Cymru o ran sut maen nhw'n gweld dyfodol Cyfuno ac o ran yr hyn y gallwn ni ei wneud fel cydlynwyr i helpu, ar wahân i roi'r dystiolaeth rydyn ni'n ei chasglu... a oes unrhyw*

*fath o negeseuon allweddol y dylem fod yn eu cyflwyno'n gyson a fyddai'n helpu ei hachos?"* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.76 Galwodd un partner am well cyfathrebu ynghylch canlyniadau ac effaith bosibl y rhaglen; ac yn fwy penodol, y gweithgareddau y gwnaethant helpu i'w hwyluso, "*fel y gallwn fwydo hynny'n ôl yn gorfforaethol "* neu'n ehangach yn eu sefydliad a nodi pwyntiau dysgu neu rannu arferion gorau yn fwy effeithiol. Ym marn y partner hwn, gellid gwella'r ffyrdd y rhannwyd gwybodaeth rhwng swyddogion ar lefel rhaglen, y prif gorff darparu a phartneriaid eraill ar y rhwydwaith. Cododd cydlynydd hyn hefyd fel problem o fewn y cyd-destun a osodwyd gan ofynion monitro Cyfuno; gan ddisgrifio sut roedd nifer y mesurau perfformiad yn ei gwneud hi'n anodd nodi a chrynhoi'r prif bwyntiau: *"Oherwydd bod gennych chi gymaint o ddangosyddion perfformiad mae'n anodd cael dim ond tair neges allweddol, er enghraifft..."*. Yn benodol, roedd yr un partner y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y paragraff hwn yn teimlo bod angen cryfhau'r mecanweithiau sydd ar waith i rannu gwybodaeth fonitro ac adrodd yn ymwneud â Cyfuno, er mwyn bod yn fwy ymatebol i anghenion lleol a theilwra gweithgareddau yn fwy effeithiol:

*"…mae'n teimlo fel ein bod ni'n gweithio mewn ychydig o wactod, oherwydd mae'r teuluoedd yn dod yma i gael 'ymyrraeth', fel rydyn ni'n ei alw, ac yn mynd oddi yma a dydyn ni ddim wir yn gwybod beth yw'r effaith, efallai am fisoedd wedyn."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

*Cyfathrebu rhwng cydlynwyr*

4.77 Ymchwiliodd yr adolygiad hwn hefyd i'r graddau a'r ffyrdd yr oedd cydlynwyr yn cyfathrebu ac yn cydweithredu â'r cydlynwyr eraill ar draws eu priod bartneriaethau ardaloedd lleol. Roedd yr holl gydlynwyr eisiau mwy o gyfathrebu rhyngddynt hwy a'u cymheiriaid, er mwyn datrys problemau a rhannu syniadau, arferion gorau a dysgu, ynghyd â'u helpu i nodi gweithgareddau i'w cynnal yn eu hardaloedd eu hunain. Fodd bynnag, pan oedd cyfathrebu rhwng cydlynwyr yn digwydd, roedd hynny ar lefel eithaf ysgafn, yn amrywio o: gyfeirio cysylltiadau partner at gydlynwyr cyfagos; trefniadau 'cyfeillio' i dalu am gyfleoedd hyfforddi; a chyfarfod mewn digwyddiadau.

4.78 Ar y cyfan, roedd y cyfathrebu rhwng cydlynwyr yn tueddu i fod yn ysbeidiol, a hefyd yn ddibynnol ar ddaearyddiaeth i raddau helaeth, gyda'r rhai sy'n gweithio mewn ardaloedd cyfagos yn fwy tebygol o gyfathrebu â'i gilydd nag yr oeddent yn y Cyfarfodydd Rhwydweithio Cydlynwyr[21]. Disgrifiodd ambell gydlynydd sut yr oedd yn cydweithredu â'r cydlynydd yn ei ranbarth, ond mai prin oedd y cyfathrebu â'r lleill y tu hwnt i hyn oherwydd *“mae pawb arall yn bell iawn oddi wrthym”*. Cododd un o'r cydlynwyr mwy newydd hefyd y ffaith y byddai cyflwyniad i'r cydlynwyr eraill, naill ai drwy e-bost neu mewn digwyddiad, wedi bod yn ddefnyddiol.

4.79 Fodd bynnag, nid oedd natur ynysig y rôl bob amser yn cael ei thrafod mewn termau negyddol gan gydlynwyr; gydag un yn benodol yn gwneud sylwadau ffafriol ar yr hyblygrwydd a ddaw yn sgil natur annibynnol y rôl o ran ei gwneud yn haws cyflawni pethau:

*“Rydyn ni i gyd yn gweithredu ar ein pen ein hunain mewn ffordd. Dyna sut mae'n gweithio. Ond mae hynny'n deillio o hyblygrwydd ein rôl hefyd, a dw i'n eithaf hoffi hynny. Felly dw i'n gwybod pe bai angen cymorth arna'i, yna gallwn ofyn amdano. Ond dw i wedi tueddu i'w wneud ar fy liwt fy hun i raddau, dim ond achos bod hynny'n haws.'* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.80 Roedd y rhan fwyaf o'r cydlynwyr a gyfwelwyd o'r farn bod Cyfarfodydd Rhwydweithio Cydlynydd Cyfuno rheolaidd yn gyfle defnyddiol i ddod at ei gilydd a rhannu arferion gorau. Fodd bynnag, roedd pawb yn teimlo bod angen adolygu fformat y cyfarfodydd hyn i fod yn llai ffurfiol, er mwyn caniatáu mwy o drafodaethau heb eu hwyluso a rhwydweithio llai strwythuredig, efallai i ffwrdd oddi wrth swyddogion polisi. I sawl cydlynydd, roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar rannu gwybodaeth a oedd yn ymylu ar eiriolaeth, a gallent fod yn eithaf dwys. Awgrymodd rhai cydlynwyr y dylid cael mwy o drafodaethau bord gron, a allai hefyd ei gwneud yn haws iddynt gydweithio rhwng ei gilydd o ddydd i ddydd.

*“… y ffordd y mae wedi'i strwythuro ar y dechrau, pan fyddwn ni'n gwneud y diweddariadau, rydyn ni i gyd yn defnyddio'r cyfle hwnnw i ganu ein clodydd ein*

[21] Caiff Cyfarfodydd Rhwydweithio eu hwyluso gan MALD, a’u nod yw dod â chydlynwyr Cyfuno, arweinwyr rhaglen Cyfuno, a phartneriaid allweddol ynghyd i drafod sut i y caiff y rhaglen ei chyflawnni ar lefel leol genedlaethol a lleol.

*hunain, oherwydd mae'r tîm Cyfuno yno. Ond ar adegau byddai'n well pe bydden ni'n siarad am rai o'r anawsterau rydyn ni'n eu hwynebu.'* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"… gallai mwy o amser ar gyfer sgyrsiau rhwng cydlynwyr fod yn ddefnyddiol o fewn amserlen [y cyfarfod rhwydweithio] ... Oherwydd mae rhestru'r holl bethau rydych chi wedi'u gwneud yn ddiddorol, ond nid yw mor ddefnyddiol â hynny os nad ydych chi'n gallu holi a thrafod y pynciau hynny ychydig yn llawnach.'* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"…mae angen mwy o rwydweithio. Efallai pe bai'n digwydd yn fwy rheolaidd byddai pobl yn adnabod ei gilydd yn well ac efallai y byddai ganddyn nhw fwy o hyder i gychwyn sgwrs.'* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*Cyfathrebu o fewn rhwydweithiau ardaloedd lleol - gweithgareddau marchnata a thargedu*

4.81 Roedd gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd awgrymiadau ymarferol ar sut i wella cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid o fewn rhwydweithiau partneriaeth ardaloedd lleol. Roedd y rhan fwyaf o syniadau'n ymwneud â marchnata'r rhaglen yn fwy effeithiol. Cododd sawl cydlynydd y ffaith bod angen cyfathrebu digwyddiadau yn fwy effeithiol er mwyn targedu cynulleidfaoedd; gydag un yn nodi er enghraifft bod angen i'r rhaglen fod *"yn fwy hysbys i'r cyhoedd"* a disgrifiodd un arall sut y gallai brandio gwell helpu gyda hyn:

*"…cefais fy synnu nad oedd gennym frand go iawn ar gyfer y prosiect...dyw cael logo Llywodraeth Cymru ddim yn ddigon da mewn gwirionedd...dyw hynny ddim yn cyfleu Cyfuno. Dyw e ddim yn dweud beth rydyn ni'n ei wneud. Dyw e ddim yn ymestyn allan at bobl ... gydag unrhyw brosiect arall rydych chi'n gofyn 'pwy yw fy nghynulleidfa?', ac rydych chi'n dylunio rhywbeth priodol."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.82 Roedd rhai cydlynwyr yn defnyddio'r cyfarpar sydd ar gael i'r prif gorff darparu (e.e. swyddi cyfryngau cymdeithasol, taflenni) i dargedu gweithgareddau at grwpiau penodol, a oedd wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o Cyfuno a'r cyfranogiad mewn gweithgareddau a gefnogir gan y rhaglen. Codwyd hyn gan un sefydliad partner a gyfwelwyd fel ffordd effeithiol o gynyddu ymgysylltiad ymhlith cynulleidfaoedd targed:

*"…os awn yn ôl at y broblem gychwynnol o ennyn diddordeb cynulleidfaoedd a chodi eu hymwybyddiaeth,  gwelsom fod hysbysebu drwy fideo yn gweithio'n dda iawn. Felly, rydyn ni wedi creu negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ond hefyd pethau fel defnyddio'r sgrin fawr yng nghanol y ddinas ... mae hynny wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ledaenu'r gair am beth yw'r rhaglen, a beth yw'r gweithdai, ac i bwy maen nhw… dim ond defnyddio ffyrdd creadigol o ledaenu'r gair, a dweud y gwir..."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

4.83 Roedd un cydlynydd o'r farn y byddai darparu deunyddiau marchnata (e.e. cardiau busnes, baneri codi) yn gwneud Cyfuno yn fwy gweladwy a phroffesiynol mewn digwyddiadau allanol; galwodd un arall am ddefnyddio dulliau mwy creadigol ac atyniadol o gyfleu nodau, amcanion a chyflawniadau'r rhaglen, i wneud y negeseuon allweddol yn fwy hygyrch i ddarpar bartneriaid a'r cyhoedd.

*"Os ydyn ni'n mynd i ddangos dilysrwydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud... mae ffilm neu ffotograffiaeth yn gyfrwng llawer mwy deniadol i'r cyhoedd ac i bartneriaid feddwl, "O, cŵl. Ie, mae hyn yn edrych yn wych"... does neb yn mynd i ddarllen cofnod hirfaith o'r hyn wnaethon ni, ac mae'n ddiflas i bobl, ac nid yw'n dod â'r peth yn fyw..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.84 Roedd gan y partneriaid a gyfwelwyd awgrymiadau hefyd ar sut i wella cyfathrebu o fewn eu partneriaethau. Yng nghyd-destun lleoliadau gwaith, awgrymodd un cyfwelai y dylid datblygu cyfeirlyfr a oedd yn amlinellu pwy oedd pwy yn y rhwydwaith, a'r mathau o weithgareddau neu gymorth y gallai eu sefydliad eu darparu drwy'r bartneriaeth a oedd y tu hwnt i rannu gwybodaeth gyffredinol, arweiniad neu adborth: *"…er enghraifft 'gallwn gynnig lleoliadau gyda'n gweithgareddau y gallai rhai o'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw eu mynychu, neu y gall oedolion rydych chi'n gweithio gyda nhw eu mynychu'... felly rhestr o'r hyn y gallen ni ei gynnig i'n gilydd yn ychwanegol at gyngor a chefnogaeth."*

4.85 Pan ofynnwyd pa welliannau, os o gwbl, y gellid eu gwneud i Cyfuno, awgrymodd un ymatebydd i'r arolwg y gellid datblygu cylchlythyr neu fwletin i hysbysebu'r cyfleoedd diwylliannol sydd ar gael mewn partneriaethau ardal leol:

*"Efallai bwletin mewnol wythnosol i aelodau Cyfuno am gyfleoedd o fewn y bartneriaeth a digwyddiadau i ddod; ond hefyd gylchlythyr sy'n mynd allan i gymunedau, efallai drwy'r cyfryngau cymdeithasol, felly mae 'na siop un stop i bobl ddod i wybod am gyfleoedd diwylliannol.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

**Monitro a gwerthuso**

4.86 Datgelodd y dystiolaeth a gasglwyd o gyfweliadau fod cydlynwyr yn wynebu rhai heriau wrth gasglu gwybodaeth fonitro a gwerthuso gan bartneriaid. Disgrifiodd y rhan fwyaf o gydlynwyr orfod annog a phlagio'r partneriaid i gael y deunydd hwn a thynnwyd sylw at amrywioldeb ymhlith partneriaid o ran dylunio a gweithredu prosesau monitro yn llwyddiannus. Er bod un cydlynydd wedi disgrifio gwelliant yn y maes hwn, o ran partneriaid yn deall y gofynion yn well ac yn cyflwyno data o ansawdd gwell o ganlyniad, codwyd pryderon gan lawer. Un gwyn gyffredin oedd y diffyg adnoddau ariannol a dynol a ddyrannwyd i waith monitro a gwerthuso gan bartneriaid. Disgrifiodd nifer o gydlynwyr amharodrwydd gan rai sefydliadau i anfon gwybodaeth atynt, ac roeddent yn teimlo y gallai cymhellion ariannol, megis dim ond dyrannu cyllid i weithgareddau ar ôl i sefydliadau gytuno i rannu data, helpu yn hyn o beth.


*"...mae a wnelo llawer o hyn â'r ffaith nad oes gennym yr arian i'w gynnig, nad ydym wedi bod yn rhan ganolog o'r hyn maen nhw wedi bod yn ei wneud, felly efallai eu bod yn teimlo, 'pam y dylem roi'r wybodaeth i chi?"* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Efallai, eto, pe bai gen i arian, y gallwn efallai gael mwy o ddylanwad drwy ddweud, "Reit, dw i'n mynd i ariannu hyn a dyma beth sy'n rhaid i chi ei wneud".* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.87 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn ar y graddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod cydlynwyr yn galluogi dulliau monitro a gwerthuso cryfach ar draws partneriaethau ardaloedd lleol. Roedd mwy o bolaredd ar draws yr ystod o opsiynau ymateb gyda'r cwestiwn hwn na chyda rhai o gwestiynau eraill yr arolwg. Roedd dros hanner (N=27) yr ymatebwyr naill ai'n *cytuno'n gryf* (N=17) neu'n *cytuno* (N=20) â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, roedd mwy na chwarter yr ymatebwyr yn

*niwtral* eu barn (N=15), tra bod pedwar yn *anghytuno* (N=2) a 2 yn *anghytuno'n gryf* (N=2). Dangosir y canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn isod, yn Siart 4.10.

**Siart 4. 10. Barn ar effaith Cyfuno a rôl y cydlynydd – monitro a gwerthuso**




**Cyfanswm o ymatebion (46)**

4.88 Her allweddol i nifer o bartneriaid oedd yr adnoddau annigonol a'r gallu cyfyngedig yn eu sefydliad i fonitro gweithgareddau eu hunain a'r anawsterau a gawsant o ganlyniad i geisio bodloni gofynion Cyfuno; yn benodol oherwydd bod partneriaid yn aml yn canolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau, a oedd yn golygu nad oedd ganddynt fawr o amser i gasglu a dadansoddi data.

4.89 Cydnabu sawl un a gymerodd ran yn yr ymchwil yr anawsterau o fesur effaith diwylliant yn gyffredinol a'r mathau o weithgareddau a gefnogir drwy Cyfuno, megis mwy o weithgareddau untro. Roeddent yn galw am wahanol offer ymchwil a dulliau gwerthuso; i Cyfuno fynd ati'n benodol i ddefnyddio tystiolaeth ehangach wrth ddadlau dros werth diwylliant ac wrth sicrhau bod pwysigrwydd casglu a dosbarthu gwybodaeth gan bartneriaid yn cael ei wneud yn gliriach. Roedd nifer o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yn feirniadol o ffocws Cyfuno ar feysydd thematig penodol ac ar ddull gwerthuso yr oeddent yn ystyried ei fod yn ymwneud â chasglu

data monitro yn hytrach nag archwiliadau manylach o effaith bosibl gweithgareddau ar gyfranogwyr, a oedd yn aml ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed neu ddifreintiedig yn eu cymunedau. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd yn cydnabod yr anawsterau wrth briodoli gweithgareddau penodol i ganlyniad neu effaith. Pwysleisiodd ambell un y byddai defnyddio technegau gwerthuso mwy manwl neu dymor hwy yn galluogi archwiliad mwy trylwyr o effeithiau posibl y rhaglen

*'Dw i ddim eisiau bod yn feirniadol o'r cydlynwyr Cyfuno oherwydd mae'n amlwg bod ganddynt rôl heriol tu hwnt i'w chyflawni.  Fy marn i yw bod y pwysau yn sgil targedau Cyfuno yn ysgogi ymddygiad sydd o bosibl yn mynd yn groes i bwrpas a nod cyffredinol y rhaglen. Mae yna ormod o bwyslais ar niferoedd a darparu llawer o weithgaredd heb adnoddau priodol, yn hytrach nag ymgysylltiad dwfn wedi'i gynllunio ar gyfer newid parhaus. Mae'n amlwg bod rhai straeon llwyddiant unigol ond mae byrdwn cyfan y rhaglen yn ymddangos fel pe bai'n gam sylweddol yn ôl pan fydd blynyddoedd o werthuso rhaglenni ymgysylltu yn ddwfn mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn dangos yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

*'Mae treftadaeth a diwylliant yn gallu adfywio cymunedau sy'n dioddef o heriau cymdeithasol ac economaidd, a chreu cyfleoedd a magu hyder a chyfleoedd a newid cyfleoedd bywyd pobl er gwell. Ond NI DDYLAI hyn gael ei lywio gan fetrigau cyflogaeth fel 'cael pobl yn ôl i'r gwaith'. Mae'r problemau'n LLAWER mwy ac yn fwy cymhleth na hynny - ar ben hynny nid yw cael pobl yn ôl i'r gwaith ynddo'i hun yn mynd i'r afael â thlodi beth bynnag gan fod gennym lefelau uchel o dlodi mewn gwaith mewn llawer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn y rhaglen Cyfuno a dull gwerthuso llawer mwy hyblyg, heb fod o'r brig i lawr, er mwyn cyflawni newid gwirioneddol ac ystyrlon.'* [Ymatebydd i'r arolwg]

*‘Datblygu rhaglen werthuso hirdymor fyddai'n tracio teuluoedd sydd wedi cymryd rhan yn y Llofnod Dysgu i weld a ydyn nhw'n ymwneud mwy â diwylliant / ymweld â mwy o leoedd diwylliannol fel teulu / a ydy'r Llofnod wedi arwain at ddiddordeb*

*mewn magu sgiliau neu ddewisiadau o ran gyrfa / addysg.Challenges - Gwerthuso impact ein gweithgareddau.'* [Ymatebydd yr arolwg]

**Cefnogaeth anghyson**

4.90 I rai cydlynwyr, er eu bod yn teimlo bod cefnogaeth i'r rhaglen Cyfuno o fewn eu prif gorff darparu, roedd hyn yn aml gan eu tîm uniongyrchol neu ar lefel rheolwyr, yn hytrach nag ar lefel weithredol, a pharodd hyn iddynt gwestiynu lefel y cyfranogiad ar lefelau uwch strwythur y sefydliad. Yn ôl un cydlynydd er enghraifft:

*"Mae gen i gefnogaeth i ryw bwynt, fel dwy lefel uwchlaw fy rheolwr llinell... Ond o ran unrhyw beth uwch na hynny, yna dw i ddim yn siŵr am y proffil sydd gan y rhaglen Cyfuno..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.91 Roedd un Cydlynydd yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â rhai adrannau mewnol o'u prif gorff darparu oherwydd diffyg *"mandad oddi uchod"*, ac awgrymodd, ar gyfer yr adrannau hyn, bod angen lledaenu manteision cymryd rhan yn Cyfuno o'r brig i lawr o lefelau uwch, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. I'r cydlynydd hwn, ef ei hun oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r cyfathrebu, ac roedd hyn yn aml yn heriol.

*"Dyw llawer o bobl yn uwch i fyny'r gadwyn ddim yn gweld y manteision, ac yna mae'n rhaid i chi berswadio er mwyn galluogi pethau i ddigwydd ar y lefel lle rydyn ni am i bethau ddigwydd…."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.92 Roedd rhai partneriaid hefyd yn cwestiynu cymhellion sefydliadau eraill o fewn eu partneriaeth; gan ystyried bod eu diddordeb mewn cydweithio wedi'i ysgogi gan hunan-fudd sefydliadol yn hytrach na phryder gwirioneddol am grwpiau targed neu grwpiau ddiddordeb penodol mewn lleoliadau penodol. Galwyd hefyd ar rai partneriaid i gyfrannu mewn ffyrdd llai arwynebol ag iddynt fwy o sylwedd a oedd yn adlewyrchu'n llawnach y syniad o weithio mewn partneriaeth, heblaw mynychu cyfarfodydd rhwydweithio yn unig.

'*Fel partner cymunedol, rydym wedi darganfod bod rhai partneriaid diwylliannol eisiau gweithio gyda ni dim ond er mwyn ticio'r bocs o weithio gyda grŵp penodol o gleifion... '* [Ymatebydd i'r arolwg]

*'Ychydig mwy o gefnogaeth gan bartneriaid, yn hytrach na dim ond bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, neu wneud awgrymiadau y mae disgwyl i rywun arall eu rhoi ar waith. Gwir gred yn y dull cydweithredol.'* [Ymatebydd i'r arolwg, yn trafod gwella'r rhaglen]

**Cymhwystra i gael cymorth**

4.93 Galwodd un sefydliad partner a gyfwelwyd hefyd am arweiniad cliriach ar lefel y rhaglen Cyfuno ar yr ardaloedd daearyddol a oedd yn gymwys i gael cymorth. Roedd y cyfwelai hwn yn gweld tlodi gwledig a threfol fel mater i'r prif gorff darparu, ac yn fater y gellid o bosibl ei gydnabod yn fwy penodol yn y cyfathrebu ynghylch dylunio a darparu gweithgareddau.

**Cyfyngiadau ar adnoddau**

*Buddsoddiad tymor hwy*

4.94 Galwodd y rhai a gyfwelwyd a'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein am fuddsoddiad tymor hwy yn Cyfuno. Roedd llawer yn teimlo y byddai ymrwymiad cyllid o'r fath yn eu helpu i gyflawni mwy o weithgareddau dros gyfnod hir, a fyddai'n ymgorffori'r rhaglen ymhellach ar lefel partneriaeth leol. Yn ôl rhai, byddai mynediad at gyllid o'r fath yn adeiladu ar lwyddiannau Cyfuno hyd yma. Roedd sawl un o'r farn y byddai buddsoddiad tymor hwy yn creu cyfleoedd mwy ystyrlon i grwpiau targed, ac yn golygu y gellid ymchwilio yn briodol i effeithiau prosiectau.

*“... gyda Cyfuno, mae'n buddsoddi mewn rhai cymunedau a chyfleoedd, ac os yw dros gyfnod llawer hwy o amser, rwy'n credu y gallai effaith hynny fod yn llawer mwy na digwyddiadau bach ar hap.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.95 Heb ymrwymiad tymor hwy gan Lywodraeth Cymru, roedd ofnau na fyddai'n bosibl cyfeirio adnoddau'n ystyrlon at grwpiau targed. Wrth wneud sylwadau ar heriau, cyfeiriodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein a chyfweliadau cydlynwyr at ddiffyg cyfathrebu ar ddyfodol y Grantiau Her Cyfuno. I gydlynwyr, roedd hyn yn creu ansicrwydd ynghylch dyfodol eu rôl gan olygu na allent ymrwymo i rai gweithgareddau. Disgrifiodd rhai cydlynwyr sut roedd yr ansicrwydd ynghylch cyllid yn golygu na allent gymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau gyda phartneriaid ar ddylunio a darparu gweithgareddau.

*“...mae'r holl bartneriaid eraill yn cynllunio flwyddyn ymlaen llaw... os ydych chi'n edrych ar eich rhaglen addysg, eich rhaglen gymunedol, digwyddiadau y byddwch yn eu cynnal... mae hynny i gyd wedi'i gynllunio ymlaen llaw. Mae angen i Cyfuno fynd ar y daith honno gyda’r partneriaid, nid ymddangos hanner ffordd drwy'r broses a dweud, “O, gyda llaw, mae’n rhaid i chi gyflawni hyn, hyn a hyn.”… Rwy’n credu bod angen i ni fuddsoddi, os gallwn ni, ychydig bach mwy o arian yn y rhaglen, ac rwy'n credu pe bai pobl yn gwybod bod ganddyn nhw flwyddyn neu ddwy i weithio ar rywbeth yna gallech gael rhai canlyniadau o ansawdd.”* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.96 Galwodd y partneriaid a gyfwelwyd hefyd am gyllid parhaus. Galwodd un, er enghraifft am *“fwy o’r un peth”* gan Cyfuno, ond disgrifiodd sut yr oedd y llywodraeth yn rhoi’r gorau i ariannu mentrau ar ôl iddynt brofi'n llwyddiant. Yn lle hynny, galwyd ar i Grantiau Her Cyfuno a rôl y cydlynydd barhau er mwyn i'w partneriaeth allu parhau i wella a darparu mwy o weithgareddau:

*“Rwyf wedi gweithio yn y trydydd sector ers peth amser. Patrwm y trydydd sector yw pan fydd rhywbeth yn llwyddiannus, dyna pryd y bydd y cyllid yn dueddol o ddod i ben, oherwydd yr agwedd 'o, wel, rydych chi wedi cyflawni rhywbeth nawr', heb sylweddoli bod angen ei gynnal. Dyw e ddim yn stopio yno. Mae yna wastad fwy o bobl y gallen ni eu cynnwys. Felly... gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn cefnogi cael mwy o arian, mwy o oriau i'r cydlynydd... oherwydd mae hynny'n helpu i sicrhau mwy o ganlyniadau."* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

4.97 Awgrymodd partner arall bod angen mwy o arian i ddatblygu cyfleoedd tymor hwy ar gyfer grwpiau targed o dan themâu *cyflogadwyedd a sgiliau* a *lleoliadau hyfforddi* Cyfuno (gweler Adran 1.8), gan dynnu sylw at yr heriau yr oedd llawer o unigolion di-waith yn eu hwynebu o ran magu profiad:

*“… byddai’n gam da ymlaen pe baem yn cynnig lleoliadau gwaith yn lle dim ond ymyriadau neu hanner diwrnod yma ac acw - bod rhywbeth mwy hirdymor, ond rhywbeth sy'n cael ei ariannu. Oherwydd yn yr hirdymor, mae angen arian ar bobl sydd wedi bod yn ddi-waith.”* [Sefydliad partner a gyfwelwyd]

*Cyllideb gyfyngedig*

4.98 Roedd cael cyllideb gyfyngedig neu ddim cyllideb o gwbl hefyd yn her i'r cydlynwyr, gan ei gwneud yn anodd iddynt gefnogi eu partneriaethau. Ni oedd modd cynnal rhai gweithgareddau oherwydd cyfyngiadau ar y gyllideb; cyflwynwyd gweithgareddau eraill ar raddfa lai. Nododd y cydlynwyr a gyfwelwyd faterion penodol ynghylch costau cyllido teithio i weithgareddau; cynnal sesiynau hyfforddi ac achredu; rheoli digwyddiadau; a datblygu deunyddiau marchnata. Roedd sawl ymatebydd i'r arolwg o'r farn y byddai cyllid ychwanegol o fewn rhwydweithiau partneriaeth lleol yn gwella cyfranogiad y gymuned mewn gweithgareddau, gan gefnogi er enghraifft: ffioedd trafnidiaeth a mynediad; adnoddau ar gyfer digwyddiadau; a ffioedd proffesiynol. Awgrymodd sawl cydlynydd y dylid sefydlu "cronfa o arian" i helpu i ariannu'r meysydd hyn ac mewn rhai achosion, i gryfhau prosiectau. Roedd cwpl o gydlynwyr hefyd o'r farn y byddai mynediad at gyllideb gyfunol yn cymell partneriaid i gymryd rhan yn eu rhwydwaith lleol, yn helpu i gydnabod yr adnodd yr oeddent yn ei fuddsoddi yn Cyfuno, neu'n ei gwneud hi'n haws i bartneriaid gyflawni amcanion y rhaglen.

*"Mae yna lawer o ewyllys da...mae yna lawer o bobl yn rhoi o'u hamser a'u hymdrech yn rhad ac am ddim. Ac rwy'n credu bod angen i ni allu o leiaf chwarae ein rhan. Alla i ddim gofyn i bobl wneud pethau am ddim.'* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"...mae angen rhyw fath o gronfa o arian...er mwyn i ni allu cynnig gweithgareddau, i helpu ein partneriaid i gyrraedd y targedau."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

4.99 Disgrifiodd rhai cydlynwyr yr effaith gadarnhaol pan oedd eu prif gorff darparu wedi darparu cyllideb fach ar gyfer gweithgareddau. Nodwyd manteision galluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gael gwared ar rwystrau trafnidiaeth a hysbysebu a thargedu gweithgareddau yn fwy effeithiol.

*"Mae'r cronfeydd...bach hyn o arian yn helpu pobl i ymgysylltu, ac mae'n rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato. Felly i mi, mae hynny'n gwneud i mi sylweddoli bod pethau bach yn gallu mynd ymhell."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Rhoddodd y cyngor gyllideb fach i mi ar gyfer marchnata a thrafnidiaeth ac mae hynny wedi bod o gymorth mawr...mae'n debyg na fyddai'r bobl sydd â'r angen*

*mwyaf yn gallu mynychu pe na bai'r gronfa fach honno o arian gennym..."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

**Bylchau yn y ddarpariaeth**

*Cydlynwyr heb fod yn eu swyddi*

4.100 Roedd nifer o ardaloedd partneriaeth Cyfuno wedi profi cyfnodau lle nad oedd cydlynydd yn y swydd. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i brif gyrff darparu sefydlu a chynnal cysylltiadau â phartneriaid. Tynnodd yr ymatebwyr i'r arolwg, er enghraifft, sylw at yr anawsterau yr oedd hyn wedi'u creu yn eu hardal(oedd) partneriaeth, oherwydd heb gydlynydd, roedd capasiti cyfyngedig neu ddim capasiti o fewn prif gyrff darparu i hwyluso'r rhwydwaith a datblygu gweithgareddau cydweithredol. Roedd hon yn farn a rannwyd gan y cydlynwyr a gafodd eu cyfweld a oedd yn fwy newydd i'w rôl, a oedd yn teimlo bod y bwlch yn y ddarpariaeth yn eu priod feysydd partneriaeth wedi arwain at ohirio eu rhwydweithiau nes eu bod ar gael i'w hailsefydlu. Heb rôl y cydlynydd, nid oeddent yn credu y gellid cynnal partneriaethau ardal leol, oherwydd ni fyddai unrhyw un ar gael i nodi partneriaid a sectorau a dod â hwy ynghyd, neu i helpu partneriaid i weithio gyda'i gilydd i ddylunio a chyflawni prosiectau yn llwyddiannus. Yn benodol, nododd y cydlynwyr mwy newydd hyn yr amser y byddai'n ei gymryd i feithrin perthynas â phartneriaid a chymunedau ac i ddeall arlwy diwylliannol eu hardal fel heriau.

*Capasiti'r cydlynwyr*

4.101 Cododd sawl cydlynydd a gyfwelwyd gyfrifoldebau ei rôl (e.e. sefydlu a rheoli rhwydweithiau, tasgau monitro ac adrodd), a'r amser a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt eu cyflawni. Tynnodd rhai cydlynwyr sylw at natur ynysig eu rolau yn eu priod gyrff darparu; ac yn aml roeddent yn ei chael hi'n anodd rheoli gofynion gweithredu mewn sawl rôl (e.e. rhwydweithiwr, hwylusydd, cyflawni gweithgareddau, monitro a chyfrifoldebau) a chydbwyso'r meysydd blaenoriaeth hyn sy'n aml yn cystadlu â'i gilydd. Roedd sawl un a gymerodd ran yn yr ymchwil o'r farn y gellid gwella'r rôl naill ai gyda staff ychwanegol i gefnogi'r partneriaethau, neu gydag adnodd pwrpasol amser llawn.

*"…mae hynny wedi bod ychydig yn rhwystredig weithiau. Gan mai chi yw'r unig berson sy'n egluro [Cyfuno] ac yn ei gwthio yn ei blaen, er bod gennych gefnogaeth yn eich adran, rydych ar eich pen eich hun o ran cychwyn pethau."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Un o'r pethau sy'n creu straen yw ceisio bod ym mhobman a bod yn bopeth i bawb."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*"Dw i wedi gwneud popeth fy hun. Ac mae wedi bod yn her...jyglo pob un o'r prosiectau hyn...dwi wedi mwynhau'n fawr. Ond mae wedi bod yn anodd iawn hefyd oherwydd rydych chi'n rhyw fath o weithio ar eich pen eich hun fwy neu lai. Hoffwn feddwl y gallai mwy o gyllid fod ar gael a thîm o bobl."* [Cydlynydd a gyfwelwyd]

*Mynediad at adnoddau diwylliannol*

4.102 Roedd y cydlynwyr a gyfwelwyd a oedd yn gweithredu mewn ardaloedd â llai o ganolfannau neu sefydliadau diwylliannol yn y cyffiniau yn gweld hyn yn her. Teimlai un cydlynydd fod hyn wedi arwain at ysgwyddo llwyth gwaith trymach, gan ei fod yn chwarae rôl fwy ymarferol wrth gydlynu, dylunio a darparu llawer o weithgareddau er mwyn gwneud iawn am yr adnodd diwylliannol cyfyngedig yn eu hardal partneriaeth leol.

# 5. Casgliadau

5.1 At ei gilydd, roedd gan y rhanddeiliaid agweddau cadarnhaol tuag at y rhaglen Cyfuno, ac roedd y partneriaid Cyfuno a gyfwelwyd yn awyddus i barhau i gymryd rhan yn y rhaglen. Dangosodd yr ymchwil fod partneriaid Cyfuno, ar y cyfan, yn coleddu'r dull partneriaeth, a chyfeiriwyd yn rheolaidd at fanteision hyn, o ran cyfleoedd i rannu sgiliau, cyfuno arbenigedd ac adnoddau, a chydweithio tuag at yr un nodau. Ar gyfer cydlynwyr, roedd cefnogaeth partneriaid a'u parodrwydd i goleddu ethos y rhaglenni wedi galluogi partneriaethau i greu mwy o gyfleoedd i dargedu grwpiau neu ddod â gwerth ychwanegol i brosiectau neu weithgareddau sy'n bodoli eisoes.

5.2 Amlygodd yr ymchwil rôl hollbwysig y cydlynydd, o ran cynnal dull wedi'i dargedu a'i gydlynu ymhlith partneriaid wrth ddarparu gweithgareddau - wedi'u galluogi drwy gydlynwyr yn goruchwylio eu hardaloedd partneriaeth lleol yn strategol, a'r gefnogaeth a'r cyngor ychwanegol y gallant eu cynnig o fewn eu rhwydweithiau partneriaeth lleol.

5.3 Fodd bynnag, amlygodd yr ymchwil y gallai rhai ffactorau helpu neu herio cydlynydd i gyflawni ei rôl, a'r rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan yn fwy cyffredinol, o ran eu hymwneud â'r rhaglen Cyfuno. Er enghraifft, er bod yr ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod agwedd allweddol ar rôl y cydlynydd yn canolbwyntio ar gyfathrebu nodau a chanlyniadau'r rhaglen Cyfuno ar lefel partneriaeth leol, amlygodd yr ymchwil yn gyson bod lle i wella mewn perthynas â'r cyfathrebu o'r brig i lawr (e.e. ar lefel y rhaglen Cyfuno a lefel y prif gorff darparu), a allai yn ei dro baratoi cydlynwyr yn well i gyfathrebu nodau a chanlyniadau Cyfuno yn lleol mewn ffordd gyson. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd y gellid dyrannu mwy o adnoddau i'r rhaglen, er enghraifft o ran buddsoddiad hirdymor yn y rhaglen, a'r adnoddau ariannol sydd ar gael i gydlynwyr. Teimlwyd y gallai hyn helpu i gefnogi a chymell cyfranogiad partneriaid yn y rhaglen, yn ogystal â chefnogi cynllunio gweithgareddau yn yr hirdymor a mesur canlyniadau ac effaith y rhaglen.

## Llyfryddiaeth


- Llywodraeth Cymru, (2013). Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Andrews, K., (2014a). Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru, (2014b). Adroddiad Diwylliant a Thlodi Gan y Farwnes Andrews – Ymateb Gan Lywodraeth Cymru. Caerdydd: Lywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 11 Mai 2019].

- Llywodraeth Cymru, (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru, (2016a). Golau yn y Gwyll. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru (2016b). Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru, (2016c). Symud Cymru Ymlaen 2016-2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru (2017a). Cyfuno: creu cyfleoedd drwy ddiwylliant, adolygiad o'r ail flwyddyn. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru, (2017b). Grantiau Her Cyfuno 2017-18. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Llywodraeth Cymru, (2017c). Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar: 29 Awst 2019].

- Llywodraeth Cymru (2018). Cyfuno Cyflawni yn 2018-19. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [Ar-lein, fel ar 29/08/2019].

## Atodiad A - Cefndir

Cafodd rôl y celfyddydau o ran meithrin gallu a sgiliau pobl, a helpu i fynd i'r afael ag amcanion trechu tlodi ac adfywio a chefnogi adfywio cymunedol, ei chydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012- 2016* (LC 2013, t. 16, 19).[22] Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ym mis Gorffennaf 2013 a dyma'r prif ffocws ar gyfer cydgysylltu camau a rhaglenni gwrthdlodi ledled Cymru.

Er mwyn archwilio'r cysylltiad rhwng mynediad at ddiwylliant a chyfiawnder cymdeithasol ymhellach, ym mis Gorffennaf 2013 gwahoddodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd y Farwnes Kay Andrews OBE i ymchwilio gyda chyrff diwylliannol a threftadaeth ledled Cymru sut y gallent "gyfrannu'n fwy effeithiol i leihau tlodi a chodi uchelgais" (Andrews 2014, t. 1).[23] Cylch gorchwyl adolygiad Andrews oedd "argymell ffyrdd y gall cyrff diwylliannol a threftadaeth gydweithio'n agosach i ehangu'r mynediad i ddiwylliant, y gwerthfawrogiad ohono a'r cyfranogi ynddo mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at leihau tlodi." (Andrews 2014, t. 3).[24] Roedd yr adolygiad yn cynnwys safbwyntiau pobl a sefydliadau a oedd yn rhan weithredol o'r agenda trechu tlodi yng Nghymru, gan dynnu ar ymchwil a wnaed ar gyfer adroddiad yr Athro Dai Smith *Adroddiad annibynnol i Lywodraeth Cymru ar y Celfyddydau mewn Addysg yn Ysgolion Cymru* (2013), a'i ategu.[25]

Gan ddefnyddio'r fframwaith a ddarparwyd gan y 33 o argymhellion a restrwyd yn adroddiad Andrews (Andrews 2014, t 4-6), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb (LC, Tachwedd 2014).[26] Ynddo, disgrifiodd sut y byddai sicrhau cydweithredu mwy effeithiol ar draws sefydliadau yn gofyn am ymdrech "i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, a dysgu gwersi, cyn i'r cysyniad gael ei ledaenu". Ymysg cynigion Llywodraeth Cymru felly roedd y bwriad i sefydlu nifer fach o 'Ardaloedd Arloesi' ledled Cymru.

---

[22] Llywodraeth Cymru (2013). Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 23 Awst 2019].
[23] Comisiynwyd yr adolygiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd, ar gyfer Tai ac Adfywio ac ar gyfer Addysg a Sgiliau.
[24] Llywodraeth Cymru (2014). Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i Hybu Cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 8 Mai 2019].
[25] Mae'r agenda ar gyfer darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio diwylliant yn ystod y diwrnod ysgol wedi cael ei datblygu drwy Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.
[26] Llywodraeth Cymru (2014). Adroddiad Diwylliant a Thlodi Gan y Farwnes Andrews – Ymateb Gan Lywodraeth Cymru. Caerdydd: Lywodraeth Cymru. [Ar-lein, fel ar 11 Mai 2019].

Cyhoeddwyd y chwe 'Ardal Arloesi' beilot yn 2014.[27] Ym mob Ardal Arloesi, byddai sefydliadau diwylliannol, grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau addysg yn cysylltu â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gydweithio ar ddatblygu cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol; yn arbennig, ymhlith yr unigolion, y grwpiau a'r cymunedau hynny na fyddent fel arfer yn ymgysylltu â'r mathau hyn o weithgareddau (LC, 2014, t.5).

Sefydlwyd cynllun peilot yr Ardaloedd Arloesi fel elfen sylfaenol o Cyfuno.

[27] Cyhoeddwyd y chwech 'Ardal Arloesi' yng Nghymru gan y Dirprwy Weinidog ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd mewn datganiad cyfarfod llawn ar 11 Tachwedd 2014.

## Atodiad B - Cyfuno: fframwaith mesur perfformiad 2019-20

| Mesur Perfformiad | Nodau WFG | Diffiniad | Enghreifftiau o ganlyniadau Gweithgaredd Diwylliannol |
|---|---|---|---|
| C1 Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu fel Teulu | Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cyfranogwyr yn bresennol mewn gweithgareddau diwylliannol strwythuredig sy'n hyrwyddo dysgu a datblygu o enedigaeth hyd at oedran ysgol. Darparwyd gydag amrywiol bartneriaid cymunedol ac eraill, gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ac ysgolion. Caiff y canlyniadau eu datblygu er budd plant yn ogystal â rhieni/gofalwyr. | • Cynlluniau i annog rhieni a gofalwyr i fod yn fwy parod i ddarllen / cynnal gweithgarwch diwylliannol gyda phlant<br>• Defnyddio gweithgarwch diwylliannol fel rhan o'r pecyn Family Learning Signature<br>• Sesiynau dysgu teuluoedd penodol mewn lleoliadau diwylliannol<br>• Sefydliadau diwylliannol yn darparu gweithgareddau dysgu teuluoedd mewn lleoliadau cymunedol |
| C2 Ennill cymhwyster | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r cleient yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig sydd â'r bwriad o ddatblygu cyflogadwyedd y cleient. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau CQFW a gwobrwyon cysylltiedig e.e. Unedau Agored, NOCN. | • Trwy gyfranogiad wedi'i drefnu gan gorff diwylliannol, mae'r cleient yn derbyn achrediad/cymhwyster cydnabyddedig. Gall gynnwys Gwobr Gelfyddydol Efydd, Arian ac Aur ac unedau megis Agored, OCN ac eraill. |
| C3 Gwirfoddoli'n rheolaidd -yn | Cymru lewyrchus | Mae'r cleient yn gwirfoddoli o fewn lleoliad diwylliannol neu ran o gorff diwylliannol | • Mae corff diwylliannol yn rhoi cyfle i gleientiaid wirfoddoli, ac yn gweithio gyda rhaglenni cefnogi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddelfrydol fel llwybr i weithio | Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | neu dreftadaeth yn rheolaidd. Mae hyn yn ddelfrydol, ond nid yn unig, yn lwybr at waith. | cyflogaeth, asiantaethau cymunedol a phartneriaid eraill i ddod o hyd i unigolion addas ac i'w cefnogi.<br>• Mae cyrff diwylliannol yn gwobrwyo gwirfoddoli er enghraifft drwy fentrau cofnodi amser a hefyd yn cydnabod credydau cofnodi fel taliadau. |
| C4 Cwblhau profiad gwaith | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r cleient yn cwblhau profiad gwaith o fewn lleoliad diwylliannol ac/neu fel rhan o gorff diwylliannol neu dreftadaeth am gyfnod penodol. Mae'n rhaid i gleientiaid fod yn bresennol am o leiaf 75% o'r amser. | • Gwaith gyda corff diwylliannol gyda rhaglenni cynnal cyflogadwyedd neu raglenni cyfeirio eraill i ganfod cyfranogwyr a darparu lleoliadau gwaith. |
| C5 Sgiliau digidol gwell | Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae cleientiaid wedi'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau digidol. | • Hyfforddiant TGCh achrededig, cydnabyddedig (yn bennaf drwy lyfrgelloedd cyhoeddus)<br>• Cyfrannu at raglenni treftadaeth ddigidol achrededig neu strwythuredig (e.e. Casgliad y Werin Cymru)<br>• Cymryd rhan mewn prosiect diwylliannol â'r prif ffocws i wella sgiliau digidol |
| C6 Agwedd well tuag at | Cymru sy'n fwy cyfartal | Mae'r cleient yn dangos gwelliant mesuradwy yn eu | • Cyrff diwylliannol yn cydweithio gydag ysgolion ac asiantaethau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddysgu'n ffurfiol | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | hymagwedd tuag at ddysgu ffurfiol, a'u cyrhaeddiad posibl, drwy eu cysylltiad â diwylliant. Dylid darparu tystiolaeth gan yr ysgol neu'r asiantaeth yn hytrach na hunan-gofnodi. | cymunedol a chyrff eraill (e.e. unedau cyfeirio) i gynnig gweithgareddau strwythuredig sy'n cefnogi pobl ifanc i wella eu hysgogiad, eu hyder a'u sgiliau ac i arwain at wella ymagwedd at ddysgu. Byddai'n bosibl cynnig tystiolaeth a chofnodi perfformiad academaidd gwell mewn rhai achosion. |
| C7 Y gallu i reoli eu lles meddyliol ac iechyd corfforol yn well | Cymru iachach<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cleientiaid yn cofnodi strategaethau rheoli gwell ar gyfer eu lles meddyliol ac/neu yn derbyn cymorth i helpu iddynt wella eu iechyd corfforol, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a threftadaeth ble mae'r prif ffocws ar wella eu iechyd a'u lles. | • Cynlluniau cyfeirio/argymhellion gan feddygon teulu gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol<br>• Rhaglenni gwirfoddoli<br>• Gwaith atgofion / cartref gofal gan ddefnyddio gweithgarwch diwylliannol<br>• Cyfraniad diwylliannol ymarferol megis gwaith crefft fel gweithgarwch therapiwtig – fel yn y Meddwl Corff ac Ysbryd<br>• Cyfrannu at weithgarwch corfforol a pherfformio gyda manteision iechyd amlwg (e.e. dawnsio, canu)<br>• Gweithgareddau diwylliannol sy'n cyfrannu at y 'Pum cam i lesiant' (New Economics Foundation). |
| C8 Sicrhau gwell cydlyniant cymunedol | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cleientiaid yn nodi mwy o ymdeimlad o berthyn ac integreiddio i'r gymdeithas yn ehangach.<br><br>Grwpiau a chleientiaid lleiafrifol yn nodi eu bod yn gweld gweithgareddau | Prosiectau diwylliannol â'r brif nod yw:<br>• Edrych ar amrywiaeth ddiwylliannol ai' ddathlu, gan weithio i gael gwared ar deimladau o ofn a diffyg ymddiriedaeth rhwng pobl o gefndiroedd gwahanol o ran hil, crefydd neu ddiwylliant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn berthnasol iddynt eu hunain a'u cymunedau. | • Dileu rhwystrau i gyfranogiad gan bobl o gefndiroedd gwahanol o ran<br>• diwylliant, hil, crefydd ac anabledd. Rhoi cymorth i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r gymuned sefydlog yn ystod y broses integreiddio. |

## Atodiad C: Arolwg

**Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant.**
Eich barn am Raglen Cyfuno Llywodraeth Cymru

**1.** Ydych chi'n Gydlynydd Cyfuno?
   - Ydw — Os 'ydw', gofynnwch gwestiwn 2.
   - Nac ydw — Os 'nac ydw', gofynnwch gwestiwn 3

**2.** Pa ardal Cyfuno ydych chi'n ei chydlynu?
   - Caerffili a Thorfaen
   - Sir Gaerfyrddin
   - Caerdydd
   - Conwy
   - Gwynedd
   - Casnewydd
   - Castell-nedd Port Talbot
   - Abertawe

**3.** Mae fy sefydliad yn bartner yn ardal/oedd Cyfuno:
   - Caerffili a Thorfaen
   - Sir Gaerfyrddin
   - Caerdydd
   - Conwy
   - Gwynedd
   - Casnewydd
   - Castell-nedd Port Talbot
   - Abertawe

**4.** Sut wnaethoch chi glywed am raglen Cyfuno?
   - Cydlynydd Cyfuno
   - Arall (nodwch)

**5.** Ar y cyfan, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r canlynol?

   Mae'r rhaglen Cyfuno yn effeithiol yn cefnogi…
   (*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

   - ...codi proffil gwaith sefydliadau sy'n cyfranogi.
   - ...dealltwriaeth well o rôl diwylliant wrth drechu tlodi oddi mewn adrannau allweddol o awdurdodau lleol.

- ...newidiadau cadarnhaol ynghylch ymdrin â dulliau o drechu tlodi.
- ...ymwybyddiaeth bositif o gelf, diwylliant a threftadaeth yn yr ardaloedd Cyfuno.
- ...gweledigaethau mwy uchelgeisiol o ddarpariaeth ddiwylliannol o fewn ardal/oedd Cyfuno.

*[Dim ond i'r rhai a atebodd 'Nac ydw' i gwestiwn 1 y gofynnwyd y cwestiwn hwn – Sefydliadau Partner]*

6. **Hoffem eich holi am y rhaglen Cyfuno ac unrhyw newidiadau i ddulliau eich sefydliad o feddwl a gweithio.**
   O ystyried gwaith eich sefydliad gyda'r rhaglen Cyfuno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol?

   O ganlyniad i Cyfuno, mae fy sefydliad…
   (*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

   - ...wedi magu dealltwriaeth well o rôl diwylliant wrth drechu tlodi.
   - ...wedi gwella sut y mae'n targedu gweithgareddau ar gyfer rhai grwpiau 'anodd eu cyrraedd'.
   - ...yn fwy ymwybodol o weithgareddau diwylliannol yn fy ardal/oedd Cyfuno.
   - ...yn darparu gweithgareddau mewn cymunedau dan anfantais economaidd.
   - ...yn cydweithio'n well â sefydliadau diwylliannol.
   - ...wedi gweithio gyda sefydliadau newydd.

7. **Hoffem glywed eich barn am rôl Cydlynwyr Cyfuno er mwyn gwella ein darpariaeth. Bydd cyfle ar ddiwedd yr adran i roi ymateb llawnach os dymunwch.**

   O ystyried profiad eich sefydliad o gyfranogi at Cyfuno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r canlynol?

   Ar y cyfan, mae Cydlynwyr Cyfuno yn hwyluso...
   (*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

   - ...proffil uwch i waith fy sefydliad.
   - ...mwy o gydweithio rhwng fy sefydliad â sefydliadau eraill sy'n cyfranogi at Cyfuno ar gynllunio gweithgareddau.
   - ...mwy o gydweithio rhwng fy sefydliad â sefydliadau eraill sy'n cyfranogi at Cyfuno ar ddarparu gweithgareddau.

     ...fy sefydliad i dargedu gweithgareddau yn fwy effeithiol tuag at rhai grwpiau 'anodd eu cyrraedd'.

**8. Mae diddordeb gennym yn eich barn ar unrhyw effaith mae Cyfuno wedi ei gael yn gyffredinol ar ystod y sefydliadau partner diwylliannol ac eraill sy'n cyfranogi at Cyfuno yn eich ardal/oedd.**

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r canlynol?

Ar y cyfan, mae Cydlynwyr Cyfuno yn hwyluso...
(*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

- ...cyfathrebu cliriach ar draws y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfranogi.
- ...dulliau monitro a gwerthuso cryfach ar draws y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfranogi.
- ...mynediad gwell at hyfforddiant ar gyfer sefydliadau sy'n cyfranogi (e.e. hyfforddiant Arts Award).
- ...cysylltiadau cryfach rhwng y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfranogi a rhaglenni i blant iau (e.e. Dechrau'n Deg).
- ...cysylltiadau cryfach rhwng y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfranogi a rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd (e.e. Cymunedau am Waith, LIFT).
- ...cyfleoedd gwell i sefydliadau ddarparu trafnidiaeth am ddim neu am ostyngiad pan yn darparu gweithgareddau.
- ...cyfleoedd gwell i sefydliadau gael mynediad at ystod o leoliadau ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â Cyfuno.

**9.** Gallwch nodi unrhyw sylwadau am eich profiadau gyda Chydlynwyr Cyfuno yn y gofod hwn.
*(Blwch testun agored)*

*[Dim ond i'r rhai a atebodd 'Ydw' i gwestiwn 1 y gofynnwyd y cwestiwn hwn – Cydlynwyr Cyfuno]*

**10. Hoffem ddysgu o'ch profiadau fel Cydlynydd Cyfuno. Bydd cyfle ar ddiwedd yr adran i roi ymateb llawnach os dymunwch. Mae'r cwestiwn canlynol yn holi am eich dealltwriaeth fel Cydlynydd Cyfuno.**

O ystyried eich profiadau fel Cydlynydd Cyfuno, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol?
(*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

- Mae wedi bod yn hawdd canfod sefydliadau partner.
- Mae wedi bod yn hawdd cynnal y rhwydwaith o sefydliadau sy'n cyfranogi.
- Mae sefydliadau partner yn rhoi'r newyddion diweddaraf am eu gwaith yn rheolaidd.

- Mae wedi bod yn hawdd monitro a gwerthuso gwybodaeth gan sefydliadau partner.
- Rwyf yn gwneud y defnydd gorau o'r sianeli cyfathrebu sydd ar gael i rannu gwybodaeth gyda Chydlynwyr eraill.
- Rwyf yn cydweithio â Chydlynwyr eraill ar weithgareddau.
- Ar y cyfan, mae fy rôl yn amlwg i mi.

**11. Hoffem eich holi am arweinyddiaeth y rhaglen Cyfuno.**

O ystyried eich profiadau fel Cydlynydd Cyfuno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno â'r canlynol?
(*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

- Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfeiriad strategol clir.
- Mae'r prif gorff darparu yn mabwysiadu dulliau Partneriaeth Cyfuno yn ei waith.
- Ar y cyfan, mae'r prif gorff darparu wedi dangos arweiniad cryf ar gyfer Partneriaeth Cyfuno.
- Overall, there has been strong leadership for the Fusion Partnership Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi dangos arweiniad cryf ar gyfer Partneriaeth Cyfuno.

**12. Hoffem gael dealltwriaeth fwy eang o rai o'r materion godwyd gan Gydlynwyr Cyfuno yn ystod gwerthusiad parhaus y rhaglen Cyfuno.**

O ystyried eich profiadau fel Cydlynydd Cyfuno, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu anghytuno fod y canlynol wedi bod yn her fawr?
(*Cytuno'n gryf; Cytuno; Niwtral; Anghytuno; Anghytuno'n gryf*)

- Adeiladu'r rhwydwaith o bartneriaid o'r sector diwylliannol ac ystod eang o sefydliadau a rhaglenni eraill.
- Datblygu dulliau cydlynol â sefydliadau partner tuag at drechu tlodi o fewn fy ardal Cyfuno.
- Tystiolaethu canlyniadau gweithgareddau Cyfuno.
- Casglu data monitro a gwerthuso gan sefydliadau partner er mwyn rhoi adborth i Lywodraeth Cymru.
- Adeiladu cysylltiadau â Chydlynwyr Cyfuno eraill.

**13.** Gallwch nodi unrhyw wybodaeth am heriau nas rhestrwyd, neu sylwadau am eich atebion uchod, yn y gofod hwn.
*(Blwch testun agored)*

*[Dim ond i Sefydliadau Partner y gofynnwyd Cwestiwn 14]*

**14.** Yn eich barn chi, beth sydd wedi bod mwyaf heriol ynglŷn ag ymwneud â'r rhaglen Cyfuno?
*(Blwch testun agored)*

*[Gofynnwyd y 3 chwestiwn olaf i bob ymatebydd]*

**15.** Yn eich barn chi, beth yw llwyddiannau allweddol y rhaglen Cyfuno?
*(Blwch ateb agored)*

**16.** Pa welliannau fyddech chi'n eu gwneud i raglen Cyfuno os o gwbl?
*(Blwch ateb agored)*

**17.** Defnyddiwch y gofod isod i nodi unrhyw sylwadau, syniadau neu awgrymiadau am waith Cyfuno.
*(Blwch ateb agored)*

## Atodiad Ch - Canllaw cyfweld â chydlynwyr Cyfuno

**Cyflwyniad**

1. I ddechrau, ble ydych chi'n Gydlynydd Cyfuno, ac am faint ydych chi wedi gweithio yn y swydd hon?

- Adran / sefydliad?

**Yr argraff o Raglen Cyfuno**

2. Beth, yn fras, yw nod y Rhaglen Cyfuno yn eich tyb chi?

**Nod sefydliadol / unigol**

3. Allwch chi roi crynodeb o'r hyn rydych chi'n ei ystyried yn brif gyfrifoldebau'r rôl?

4. Beth sydd yn / wedi eich helpu i gyflawni'r rôl hon?
    - Ym mha adran mae'r rôl?
    - Yw'r sefydliad yn gweithio gyda sefydliadau diwylliannol/treftadaeth/celfyddydol eraill?
    - Ydych chi'n medru cydweithio â chydlynwyr Cyfuno eraill?
        - Oherwydd lleoliadau agos?
        - Fyddai'n ddefnyddiol i cydweithio mwy?
            - Beth allai hwyluso hyn?
    - Oes dilyniant o staff wedi ymwneud â Rhaglen Cyfuno yn eich sefydliad?
    - Cefnogaeth o fewn yr adran/sefydliad?
    - Oes cefnogaeth o wahanol lefelau? Rheolwyr? Cyfarwyddwyr?
    - Oes cyfnod trosglwyddo?
    - Rhan amser / llawn amser?
    - Profiad /cefndir blaenorol?

**Cyd-destun partneriaeth Cyfuno**

Hoffwn siarad yn benodol am eich profiad o'r ardal Partneriaeth Cyfuno.

5. Allwch chi ddweud mwy am eich ardal Partneriaeth Cyfuno. Sut fyddech chi’n ei disgrifio?

6. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid?
    - Ydyn nhw'n bartneriaid newydd? Ydyn nhw'n bartneriaid presennol?
        - Oedd rhwydwaith Cymunedau'n Gyntaf yn bodoli'n barod?

7. Sut gaiff partneriaethau eu hadnabod?

8. Sut fyddwch chi'n cyfathrebu â'ch partneriaid?

9. Ydych chi'n teimlo bod y partneriaid Cyfuno yn ymroi?

10. Pam ydych chi'n credu bod sefydliadau yn troi at ardal Partneriaeth Cyfuno?

11. Oes esiamplau o sefydliadau oedd angen mwy o anogaeth i ymuno â'r rhwydwaith?
    - Esiamplau?
    - Oes rhesymau dros hyn?
    - Rôl chd'i yn hyn?

12. Oes gweithgareddau newydd yn cael eu cynnig o ganlyniad i'r Bartneriaeth Cyfuno?
    - Pa weithgareddau presennol a gynhelir? Oes gwerth ychwanegol?
    - Gweithgareddau unigol neu gyfresi?

13. Yw eich partneriaid yn cydweithio i ddatblygu gweithgareddau?
    - Beth yw eich rôl yn hyn?

14. Yw gweithgareddau'n cael eu targedu'n well o ganlyniad i'r Bartneriaeth Cyfuno?
    - At ba grwpiau?
    - Grwpiau anodd eu cyrraedd?

15. Oes grwpiau yr hoffech chi weithio gyda nhw?
    - Pam?
    - Beth allwch chi /eich sefydliad ei wneud am hyn?

16. Yw eich rhwydwaith Partneriaeth Cyfuno yn gynaliadwy?

17. Oes partneriaethau yn cryfhau? Yn newid?
    - Beth yw eich rôl yn hyn?

18. Yw partneriaid yn sicrhau nawdd ychwanegol?
    - Beth yw eich rôl yn hyn?

19. Yw partneriaid yn dysgu o'ch gilydd? Rhannu arferion gorau?
    - Beth yw eich rôl yn hyn?

20. Ydych chi wedi gweld cynni / lleihad?
    - Os do, pam?

21. Yw tybiaethau o sefydliadau wedi newid o ganlyniad i weithio fel rhan o rwydwaith?

22. Oes sefydliadau yr hoffech weithio gyda nhw?
    - Oes sectorau sydd heb gynrychiolaeth?
    - Beth yw'r rheswm dros hyn?
    - Beth allwch chi /eich sefydliad ei wneud am hyn?

**Yr Iaith Gymraeg**

23. Sut fyddwch chi'n ystyried anghenion yr iaith Gymraeg yn eich ardal Partneriaeth Cyfuno?
    - e.e. drwy gyfathrebu gweithgareddau Cyfuno?
    - Wrth ddylunio a darparu gweithgareddau Cyfuno?

24. Os na, pam?

**Llwyddiannau**

Rydyn ni'n eiddgar i glywed...

25. ...beth yn eich barn chi, yw llwyddiannau allweddol eich ardal Partneriaeth Cyfuno?

26. Beth aeth yn dda? Beth ydych chi'n fwyaf balch ohono?
    - Beth yw eich rôl yn hyn?

**Heriau**

Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn clywed am beth sy'n gweithio'n dda, a lle gellir gwella.

27. Beth sydd wedi bod yn fwyaf heriol am eich ardal Partneriaeth Cyfuno?
    - Canfod Sefydliadau Partner?
    - Meithrin y rhwydwaith o sefydliadau?
    - Derbyn gwybodaeth reolaidd gan y sefydliadau partner?
    - Casglu gwybodaeth monitro a gwerthuso gan sefydliadau partner?
    - Rhannu gwersi gyda'r cydlynwyr eraill?

28. Yw’r heriau'n parhau / wedi eu datrys?

29. O ystyried eich rôl fel Cydlynydd Cyfuno yn benodol, beth sydd wedi bod yn heriol wrth gyflawni'r rôl hon?
    - Ym mha adran mae'r rôl?
    - Yw'r sefydliad yn gweithio gyda sefydliadau diwylliannol/treftadaeth/celfyddydol eraill?
    - Ydych chi'm cydweithio â chydlynwyr Cyfuno eraill?
        - Oherwydd lleoliadau agos?
    - Oes dilyniant o staff wedi ymwneud â Rhaglen Cyfuno yn eich sefydliad?
    - Cefnogaeth o fewn yr adran/sefydliad?
    - Oes cefnogaeth o wahanol lefelau? Rheolwyr? Cyfarwyddwyr?
    - Oes cyfnod trosglwyddo?
    - Rhan amser / llawn amser?
    - Profiad blaenorol?

30. Yw'r heriau yn parhau / wedi eu datrys?

**Gwelliannau**

31. Pa welliannau, os o gwbl, allai gael eu gwneud yn eich ardal Partneriaeth Cyfuno? Oes gennych chi argymhellion?
    - Sut? Pam?

**Cloi**

32. Oes gennych chi unrhyw sylwadau / adborth arall?

## Atodiad D - Canllaw cyfweld sefydliadau partner

### Cyflwyniad / cwestiynau ffeithiol

1. I ba sefydliad ydych chi'n gweithio?

2. Beth yw eich rôl chi yn y sefydliad hwnnw?

3. Ym mha faes Cyfuno mae'ch sefydliad yn gweithio?

4. Ydy'ch sefydliad yn ymwneud â mwy nag un ardal bartneriaeth?

5. Ers pryd mae'ch sefydliad wedi cymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno?

6. Ers pryd ydych chi wedi cyfrannu'n benodol at Cyfuno/ardal bartneriaeth Cyfuno?

7. Sut clywsoch chi am raglen Cyfuno / ardal bartneriaeth?
   - *Sut wnaeth eich sefydliad ymuno â'r bartneriaeth?*

### Rhagdybiaethau am y rhaglen/ Cyfuno ar waith

8. Yn gryno, beth mae rhaglen Cyfuno yn ceisio'i gyflawni yn eich barn chi?

9. Pam wnaeth eich sefydliad ymuno â rhaglen Cyfuno / ardal bartneriaeth Cyfuno?
   - *Cymhelliant dros ymuno?*
   - *Pa mor rheolaidd mae'ch sefydliad yn cymryd rhan yn y bartneriaeth?*

10. Sut mae'ch sefydliad yn cymryd rhan yn eich ardal bartneriaeth?
    - *Mynychu cyfarfodydd?*
    - *Cael y datblygiadau diweddaraf?*
    - *Cyfeirio at gysylltiadau a/neu weithgareddau?*
    - *Cynllunio gweithgareddau?*
    - *Cyflwyno gweithgareddau?*
    - *Pa fath o weithgareddau?*
    - *Gweithgareddau newydd a / neu rai cyfredol?*
    - *Gweithgareddau untro / rheolaidd?*
    - *Cyfranwyr newydd? – o grwpiau / cymunedau anodd eu cyrraedd?*

11. Ydy'r bartneriaeth yn cynnwys amryw o sefydliadau eraill?
    - *Oes unrhyw sector heb gynrychiolaeth ddigonol? – pa sectorau / beth yw'r rheswm am hyn?*

12. Ydy'ch sefydliad chi'n cydweithio ag eraill yn y bartneriaeth?
    - *Os felly, pwy / sut?*
    - *Cynllunio / cyflwyno gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg?*

**Beth sy'n gweithio'n dda**

13. Beth – os o gwbl – sy'n gweithio'n dda yn eich ardal bartneriaeth?
    - *Wedi bodloni disgwyliadau?*
    - *Unrhyw newidiadau i'ch sefydliad ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno?*
    - *Ydy rhwydwaith y bartneriaeth yn ddefnyddiol i'ch sefydliad?*
        - os ydy, ym mha ffyrdd?

14. Beth oedd / yw prif fanteision cymryd rhan yn y bartneriaeth i chi fel sefydliad?

**Rôl y Cydlynydd yn y dyfodol**

Hoffem drafod rôl Cydlynydd Cyfuno hefyd. Fel y gwyddoch, mae rhaglen Cyfuno wedi canolbwyntio'i hadnoddau ar ariannu swyddi cydlynydd Cyfuno ledled ardaloedd partneriaeth, a hoffem gael eich barn ar sut mae hyn wedi gweithio'n ymarferol.

15. Beth yw rôl y cydlynydd yn eich partneriaeth?
    - *Enghreifftiau penodol?*

16. Sut fyddech chi'n disgrifio perthynas eich sefydliad â Chydlynydd Cyfuno?

17. Pa mor bwysig yw rôl y cydlynydd?
    - *Yn nhermau sut mae'r bartneriaeth yn gweithio?*
    - *Enghreifftiau penodol?*

18. Fyddai modd gwneud unrhyw beth i wella rôl y cydlynydd?

19. A fyddai unrhyw un o'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd ynghynt wedi digwydd heb…
    - *Cyfuno?*
    - *rôl Cydlynydd Cyfuno?*

**Effaith a chynaliadwyedd**

20. Ydy Cyfuno wedi effeithio ar ffordd eich sefydliad o…
    - *…feddwl?*
    - *…gweithio?*

21. Os felly, allwch chi roi enghreifftiau penodol?
    - Fyddai hyn wedi digwydd heb Gydlynydd Cyfuno? – Pam ydych chi'n credu hyn?

22. Ydy'r newidiadau hyn yn debygol o barhau i'r dyfodol?
    - *Os na, lle mae'r bylchau?*

CWESTIWN DILYNOL:

23. Sut ddylai Cyfuno edrych yn 2020 er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy?

24. Pe baech chi'n gadael eich rôl yfory, beth fyddai'n digwydd i waith Cyfuno?

**Cyfyngiadau / heriau**

25. Beth – os o gwbl – nad yw'n gweithio'n dda yn eich ardal bartneriaeth chi?
    - *…enghreifftiau penodol?*

26. Gan feddwl am ran eich sefydliad chi yn y bartneriaeth, beth oedd y prif heriau?
    - *Enghreifftiau penodol?*
    - *Ydy'r rhain yn barhaus…? Wedi'u datrys? Oes modd mynd i'r afael â nhw?*
    - *Oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth? Unrhyw fylchau o ran cymorth gan y cydlynydd? Trefniant Cyfuno?*

**Gwelliannau**

Yn olaf, hoffem glywed pa welliannau y gellir eu gwneud i raglen Cyfuno – byddem yn gwerthfawrogi'ch syniadau ar hyn. Gan feddwl am unrhyw heriau a gawsoch chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar…


27. …sut gallen ni wella'r bartneriaeth?

28. …sut gallen ni wella rhaglen Cyfuno?

**Casgliadau**

29. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu adborth pellach?

## Atodiad Dd – Crynodeb o ddata'r canlyniadau[28]




[28] Mae'r ffeithlun uchod yn dangos cyfraniad y rhaglen yn 2018-19, yn erbyn fframwaith mesur perfformiad rhaglenni Cyfuno. Ar gyfer rhai gweithgareddau Cyfuno, adroddwyd mwy nag un canlyniad ar gyfer unigolyn ar gyfer yr un gweithgaredd. Casglodd y partneriaethau yr wybodaeth fonitro ac adrodd arni mewn ffyrdd gwahanol. Dylid cadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof wrth ddehongli'r data.